




Y DINESYDD

Rhagfyr 2016
Ionawr 2017

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 413 £1

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr



**Tocyn i gyngerdd Cofio
John Albert — gweler tud. 3**

**Tim Rygbi Merched Cymry Caerdydd
— gweler tud. 21**



**Siop y Felin yn newid
dwylo ar ôl 21 mlynedd —
gweler tud. 13**



**Tom a Gwen, plant Gina, yn llongyfarch ei mam ar
ddiwedd hanner marathon Caerdydd eleni. Dyma'r
pedwerydd tro yn olynol i Gina, sy'n dod yn
wreiddiol o Riwbeina, gwblhau'r ras a llwyddo i
godi swm sylweddol i'r gwahanol elusennau.**



FFILM NADOLIG HUDOLUS
Albi a Noa yn Achub yr Iwnifyrs
S4C Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr, 7:30pm



**Nesáu at y Nadolig yn
Yr Hen Lyfrgell**

Mae'n braf gweld cymaint o fwrlwm yng nghanol y ddinas wrth i ni edrych ymlaen at y Nadolig ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu nifer o grwpiau yma yn ystod y mis nesaf i ddathlu. Bydd Yr Hen Lyfrgell yn gyrchfan i nosweithiau ciniawau Nadolig yn y Caffi Bar wedi eu trefnu gennym ni mewn cydweithrediad gyda Capital Cuisine sydd wedi paratoi bwydlen hynod o flasus!

Gyda'n cyfarwyddwr Bethan Williams wedi ein gadael am gyfnod mamolaeth yr wythnos diwethaf, rydym yn falch o gael Nia Ramage i gymryd ei lle dros y misoedd nesaf. Gyda phrofiad yn trefnu digwyddiadau lu i sefydliadau trydydd sector hoffem ddymuno pob hwy! i Nia yn ei swydd fel cyfarwyddwr ac i Bethan a'r aelod newydd o'r teulu.

Pleser oedd gweld ein hystafelloedd cynhadledd a chyfarfod yn parhau i fod yn brysur fis Tachwedd gyda Diabetes Cymru, Cyngor Gofal Cymru, Cyfieithwyr Cymru a llawer mwy yn eu defnyddio. Rydym yn hapus iawn o allu cyhoeddi bod y gwasanaeth yma wedi bod yn llwyddiannus iawn ers i ni agor gyda sefydliadau, grwpiau cymdeithasol a busnesau yn dychwelyd dro ar ôl tro i ddefnyddio ein cyfleusterau ac mae'r calendr yn edrych yn addawol am y misoedd nesaf hefyd.

Mae siop Bodlon wedi bod yn cynnal nifer o ddigwyddiadau arbennig ac os ydych yn edrych am anrhegion Cymreig o safon neu gardiau Nadolig, mae'r lle yn llawn danteithion ac yn fwrlwm o siopwyr bob dydd felly galwch draw.

Hoffem ddymuno pob llawenydd dros gyfnod y Nadolig a blwyddyn newydd hapus iawn i'n holl ffrindiau a'n cefnogwyr gan bawb yma yn Yr Hen Lyfrgell. Cofiwch edrych ar ein gwefan am ddigwyddiadau yn y Flwyddyn Newydd.

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda!

Oriau agor

Siop Bodlon Ar agor tan 15:00 Noswyl Nadolig Ar gau 25-27/12 Ar agor 28-31/12 Ar gau 01-02/01	Amgueddfa Stori Caerdydd Ar agor tan 13:30 Noswyl Nadolig Ar gau 5-27/12 Ar agor 28-31/12 Ar gau 01/01
Caffi Bar Ar gau 23/12 - 02/01 {oni bai am ddigwyddiadau preifat}	Swyddfeydd a Ystafelloedd dysgu Ar gau 23/12 - 02/01

Y DINESYDD

Golygydd:
Clive Rowlands

Golygyddion Chwefror
Eirian a Gwilym Dafydd

Cyfraniadau erbyn 27 Ionawr i:
eirian.dafydd@ntlworld.com
Hengoed, 4 Coryton Rise,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestyn@gmail.com
63 De Burgh St., Glan-yr-afon,
CF11 6LB
07876 068498

Dosbarthu copïau:
Huw Jones
huwgybuw@aol.com
22 Blaen-y-coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
029 20843835 07985 174997

www.dinesydd.cymru

Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru



Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

CABAN, Pontcanna
CANT A MIL VINTAGE, 100 Whitchurch Rd.
CHAPTER, Treganna
DERI STORES, Rhiwbeina
FOOD FOR THOUGHT, Y Barri
GRIFFIN BOOKS, Penarth
PAPERWEIGHT, 22 Wellfield Road
SIOP BODLON, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina

Cyngerdd Cofio John Albert

Nos Wener 18 Tachwedd trefnwyd cyngerdd gan Y Stafell Fyw i gofio'r diweddar John Albert Evans. A hithau'n noson erwin gynta'r gaeaf a goleuadau Nadolig y ddinas yn gefnlen, ymgasglodd cynulleidfa deilwng yng Nghapel y Tabernacl i gyngerdd a fyddai wedi bod wrth fodd John. Am un noson bedyddiwyd yr adeilad yn Neuadd John Albert. Roedd yn hyfryd gweld aelodau'r teulu yn bresennol.

Agorwyd y noson gan Brif weithredwr Y Stafell Fyw, Wynford Ellis Owen, yn darllen englyn gan gyfaill mynwesol John sef y Prifardd Aled Gwyn.

Trist yw'n gwlad, gwag yw'r Stadiwm – oer yw'r ias
Sydd ar awch yr hirlwm;
Wrth gofio y troedio trwm,
Caled yw torri'r cwlwm.

Yna daeth Steffan Jones ymlaen gyda'i gyfeilydd, Lowri Guy, i arwain Côr Meibion Taf. Cyflwynwyd croesdoriad o *repertoire* y côr yr oedd John yn arbennig o hoff ohonynt, yn amrywio o emynau mawreddog i sianti forwrol, o ddarnau clasurol i ganu gwerin. Ychwanegwyd at arlwy y noson gan gyfraniadau caboledig ar y gitâr glasurol gan Rhisiart Arwel sydd hefyd yn un o denoriaid y côr.

Cyflwynwyd teyrnged gynnes a chynhwysfawr gan y Parchedig Denzil John. Roedd yn gyfuniad o'r llon a'r lleddf. Cyffyrddodd â phob agwedd ar fywyd John – ei gariad at ei deulu, ei gyfraniad i Gymreictod ac addysg, ei obsesiwn â phêl-droed yn arbennig felly tîm y brifddinas y cerddwr a'r gwladwr, y dinesydd a'r cyfarwydd ac, yn anad dim, ei hiwmor. Cyfannwyd y cyfan oll yn ddeheuig gan Denzil, y cyfaill agos a chyd aelod o'r côr a ddaeth â'r holl atgofion yn fyw.

Cynigiwyd y diolchiadau gan Gadeirydd Y Stafell Fyw sef Arwel Ellis Owen gan dalu ei deyrnged bersonol. Yn olaf, daeth Wynford i grybwyll cyfraniad unigryw John i'r Stafell Fyw ac i grynhoi ei sylwadau, darllenodd englyn iddo gan y Prifardd Emyr Lewis:-

Direidi'r wên, dewrder enaid – geiriau
cyfeillgarwch tanbaid;
llawn hwyl am ei anwyliaid
bob tro; gobeithio di-baid.

'Pobol y Rhigwm'

Croeso i gornel 'Pobol y Rhigwm'. Dyma gornel misol i rigymwyr, limrigwyr, beirdd neu unrhyw un arall sy'n dymuno cystadlu drwy weithio brawddeg, pennill, limrig neu bwt o gerdd ar destun gosod. Y beirniad fydd Emyr Davies.

Dyma'r testun cyntaf felly:

Brawddeg ar y gair 'DINAS'.

Rhaid i bob gair yn eich brawddeg ddechrau â llythrennau'r gair hwnnw. **Daw i ni awen sylweddol ...** gobeithio. Bydd gwobr o £10 i'r enillydd, a chyhoeddir yr enw yn y rhifyn o'r Dinesydd ar ôl y nesaf. Ewch ati felly! Gwobrwyir doniolwch.

Anfonwch eich cynigion drwy e-bost, yn nodi eich enw iawn a ffugenw at: db.james@ntlworld.com erbyn 5 Chwefror. Mae barn y beirniad yn derfynol!



“Rhaid dymuno ymddeoliad hir a hapus i Mary Buttle, perchennog Siop y Felin yn yr Eglwys Newydd ers 21 mlynedd.”

Colofn G.R.

Mae 2016 yn brysur ddod i ben ac mae hi wedi bod yn flwyddyn llawn digwyddiadau cynhyrfus ac anodd gwybod beth ddaw yn 2017. Ond digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun biau hi siwr o fod ac felly hwyrach dylwn ganolbwyntio ar ddathlu'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd cyn wynebu ansicrwydd 2017!

Mae'r etholiad yn yr Amerig wedi cynhyrfu'r dyfroedd a phe bai Hillary Clinton wedi ennill y ras i'r Tŷ Gwyn byddai hi wedi bod y wraig gyntaf i fod yn Arlywydd y wlad a hithau hefyd o dras Cymreig ochr ei thad. Mae o wedi ei gladdu yn y fynwent Gymreig yn Scranton, Pennsylvania. Ond cafodd Hillary Clinton ei geni yn ninas Chicago ac ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf odd Capel Cymraeg yno o'r enw Hebron hefo tua phum cant o aelodau yn ôl Ellen G Evans yn ei llyfr "I Chicago'n Bymtheg oed".

Eto yn ddiweddar bylchwyd ein rhengoedd drwy farwolaethau y nofelydd Gareth F Williams, awdur y nofel "Awst yn Anogia" ac enillydd Llyfr y Flwyddyn yn 2015 a'r Dr Terry James Cydweli, y cerddor a'r cyfansoddwr. Cafodd fywyd hynod o liwgar a diddorol ac am gyfnod buodd yn byw yn yr Amerig yn cyfansoddi ar gyfer ffilmiau.

Mae Lucy Owen y gyflwynwraig ar y BBC wedi siarad yn Gymraeg ar y teledu am ei llyfr i blant o'r enw "Bw-a-Bog yn y Parc" sy wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg a'r elw i fynd tuag at Gronfa Arch Noa yn Ysbyty'r Plant yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau iddi hi am fentro siarad yn Gymraeg yn gyhoeddus a hithau yn ddysgwraig ers peth amser.

Ysgrifennydd Parhaol nesa yn y gwasanaeth sifil yng Nghymru fydd Shan Morgan sy ar hyn o bryd yn gweithio ym Mrwsel ond bydd hi'n olynu Syr Derek Jones yn y swydd. Ar un adeg buodd hi'n Llysgennad Prydain yn yr Ariannin a thra yn y swydd honno

ymwelodd â'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Croeso iddi hi i Gymru a phob dymuniad da iddi yn y swydd bwysig hon.

Mae'r Ganolfan Gymraeg yn yr Hen Lyfrgell yn wynebu dyfodol ansicr a felly mae angen pob cymorth ar y Ganolfan i sicrhau na fydd y Ganolfan yn cau. Problem cyllido ydy'r prif fwgan a gobeithir bydd modd datrys y sefyllfa yn fuan.

Mae'r Farwnes Eluned Morgan a fagwyd yn ardal Trelai wedi lawnsio gwobr flynyddol er cof am ei thad y Parch Bob Morgan a fuodd yn Arweinydd hen Gyngor Sir De Morgannwg ac yn ficer Eglwys yr Atgyfodiad yn Nhrelai am flynddoedd. Bydd y wobwr hon yn cefnogi gwragedd yn ardal Caerdydd i gyrraedd eu nod mewn bywyd. Ynghanol ei brysurdeb yn y byd gwleidyddol a chrefyddol buodd yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy, Treganna ac enynnodd barch mawr gan bawb a ddaeth i'w 'nabod.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd cofiant i'r bardd Gwenallt gan y Prifardd Alan Llwyd. Mae cof gen i imi fynychu dosbarth y bardd yng Ngholeg Aberystwyth pan on i'n fyfyrwr yno a'r testun ar y pryd odd y gerdd "Dinistr Jeriwsalem" gan Eben Fardd! – pwnc braidd yn sych i mi odd am fod yn athro mewn ysgol gyrradd!

Yn olaf y tro hwn rhaid dymuno ymddeoliad hir a hapus i Mary Buttle, perchennog Siop y Felin yn yr Eglwys Newydd ers 21 mlynedd. Bellach mae perchennog newydd gan y siop a gobeithio bydd pawb yn dod i gefnogi'r adnodd bwysig hon i ni'r Cymry Cymraeg yn y ddinas.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb sy'n darllen y golofn hon a gweddill cynnwys Y Dinesydd! Byddwn nôl ym mis Chwefror ar ôl saib dros yr Ŵyl.

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Braint oedd croesawu Ceinwen Jones, Llandaf, i'r Aelwyd ganol mis Tachwedd i sôn am ei phrofiadau fel athrawes ifanc ar ynys Madagasgar. Fe'i penodwyd gan UNESCO a Chymdeithas Genhadol Llundain i ymgymryd ag addysgu Saesneg yn y brif ddinas, Antananarivo. Soniodd am iddi ymglyfarwyddo â'r gwahanol dywydd mewn gwahanol rannau o'r ynys. Er bod yna dlodi mewn gwahanol ardaloedd roedd yn amlwg bod yna gyfoeth wrth iddi edrych ar rai o'r tai a'r adeiladau cyhoeddus. Bu'n brofiad bywyd yn amlwg

iddi, ac yn bleser i'r aelodau wrando ar ei hanerchiad diddorol.

Trefnwyd ymweliad ag Abertawe ddiwedd y mis i Amgueddfeydd y Glannau a'r Ddinas. Cafodd 30 o'r aelodau ddarlun cyflawn o ddatblygiad diwydiant y porthladd a'r dref. Hefyd mwynhawyd seibiant ar ochr y Marina a chael bwyd blasus yng ngwesty'r *Pump House*.

Bydd croeso i'r aelodau ffyddlon a newydd i ymuno yng Ngwasanaeth a Pharti'r Nadolig ar ddydd Mercher, Rhagfyr 14 yn Ffestri Minny Street am 1.00 o'r gloch (**noder yr amser**).

Nadolig Llawn i holl gyfeillion Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd.

WHALU MEDDILIE

"Pan af i mas i joio, 'dw i'n teimlo mor euog fy mod yn gadel D ar ôl."

Beti George



Fe fyddwch chi'n falch o glywed - a finne wedi bod yn taranu am y diffyg cefnogaeth a gwasanaethau - ein bod yn cael gofal dydd o'r diwedd a hynny am 36 awr yr wythnos. O da iawn oedd ymateb un ffrind, pan rown i'n datgan fy moddhad - diwrnod a hanner o ofal! Digon gwir - Ond dw i ddim yn cwyno!

Paul a Milly yw'r gofalwyr a hyd yn hyn ta beth, ma' popeth yn hunky dory! Paul yn dod yn y bore i neud yr hyn mân nhw'n alw yn ofal personol. Mae'n dda ac amyneddgar iawn. Ma'r ddau wedi dod yn fêts!

Milly yw'r un sy'n rhoi trefn ar bethel! A finne'n sylweddoli bod yn rhaid i fi ildio a pheidio bod yn gymaint o *control freak*.

Mae'n bosib i fi nawr gwrdd a ffrindie am goffi neu bryd bach o fwyd. Ac ail-gydio mewn bach o ddiwylliant - cyngerdd, opera, theatr!

Mae'r gwybodusion, yn pwylseisio bod cymryd ysbaid yn hollol hanfodol i bob gofalwr teuluol. Dw i'n lwcus - ond mae na gannoedd mas fanna sy heb y gefnogaeth a'r help i allu cael hoe o'r gofalu.

Pan af i mas i joio, 'dw i'n teimlo mor euog fy mod yn gadel D ar ôl. Mae e am ddod 'da fi. Yr unig ffordd y galla i ei dawelu e' yw dweud celwydd - fy mod yn mynd i weld drama Gymraeg, ac na fuse fe yn gallu ei deall!

Mewn ffordd 'dw i'n falch nad yw David yn gallu siarad yr iaith, achos ma na gyndynrwydd o hyd i dderbyn bod ystyried y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau Dementia yn hollol hanfodol. Felly, braf oedd cael bod mewn lansiad arbennig yn ddiweddar yn Llyfrgell y Ddinas gan "Pictures to Share". Cyfres o lyfre Saesneg yw'r rhain i bobl â dementia. Achlysur oedd hwn i lansi'r llyfr Cymraeg cynta - *Hen Wlad fy Nhadau*. Fe

ges i rhyw hanner dwsin o'r llyfre yn anrheg i David ac maen nhw'n amrywio o un ar Chwaraeon, un ar yr ardd, un ar lan y môr ac yn y blaen. Ond wyddech chi beth - y ffefryn dw i'n sylwi yw'r un Cymraeg. Gyda llaw yn ddiweddar, a ninne wedi bod yn gwyllo gême rygbi'r Hydref, mae'n canu Hen Wlad fy Nhadau gydag arddeliad ac mae'r dagre yn twmlo lawr ei ruddie! Cofio mae e am y dyddie da mae'n siwr.



Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun Tachwedd 21 cawsom noson gofiadwy iawn ar 'Dylanwad Genynnau ar Glefyd Alzheimer' yng nghwmni Alun Meggy. Mae Alun nawr yn aelod o Adran Niwroleg Prifysgol Caerdydd ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol y Wern ac Ysgol Glantaf. Dechreuodd trwy ddweud bod dementia neu gorddryswch i ddefnyddio term geiriadur Prifysgol Cymru, yn gyfrifol am ladd mwy o bobl nag un clefyd arall. Ac o'r sawl math o orddryswch, clefyd Alzheimer yw y mwyaf cyffredin. Dangosodd luniau trawiadol o ymennydd iach ac ymennydd claf oedd yn dioddef o'r clefyd ac roedd y gwahaniaeth yn amlwg i bawb. Roedd tyllau mawr yn ymennydd y claf ac roedd ei liw a'i faint yn wahanol.

Pwysleisiodd Alun bod symptomau clefyd Alzheimer yn wahanol ym mhob claf. Mae'r symptomau yn cynnwys colli cof tymor byr, newidiadau personoliaeth, anawsterau gyda cynllunio, methu datrys problemau,

methu dygymod a gwaith tŷ ac ymolchi, colli'r gallu i ysgrifennu a chyfathrebu yn ogystal a mynd ar goll mewn llefydd cyfarwydd. Nid yw'n bosib cadarnhau y diagnosis nes marwolaeth y claf, lle gellir gweld strwythurau o'r enw placiau a tanglau yn yr ymennydd. Roedd yn syndod clywed y gellir dioddef o'r clefyd am 10-15 mlynedd heb ddioddef unrhyw symptomau.

Treuliodd Alun weddill y ddarlith yn esbonio y gwyddoniaeth tu ôl i sut mae'r placiau a'r tanglau yn ffurfio. Mae'r placiau wedi eu gwneud o brotein o'r enw Amyloid Beta - sylwedd sy'n cael ei waredu o ymennydd iach. Felly mae rhywbeth yn amharu ar y broses yma o waredu gwastraff. Enwodd Alun nifer o enynnau (genes) sydd wedi eu cysylltu â chlefyd Alzheimer, yn eu plith APOE, APP, TREM2, CLU a BIN1. Fel y tybiwch nid yw'r cysylltiad rhyngddynt â'r clefyd yn glir o gwbl, ac nid yw'n bosib beio un genyn, ond mae angen cyfuniad ohonynt cyn gall y clefyd ddatblygu. Yn anffodus, nid yw'n bosib atal y clefyd ar hyn o bryd, ond mae tystiolaeth ystadegol yn awgrymu bod byw bywyd iach yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad rhag y clefyd erchyll yma.

Ffilm Nadolig Hudolus

Ffrindiau dychmygol, caneuon cofiadwy a dathliadau'r Nadolig - cyfuniad hudolus ar gyfer ffilm newydd sbon, **Albi a Noa yn Achub yr Iwnifyrs**.

Seren y ffilm yw Noa, bachgen 7 mlwydd oed, a'i deulu prysur. Mae mam a dad wastad yn gweithio, ond dydi hynny'n poeni dim ar Noa am fod ganddo gwmni ei gyfaill pennaf, ei ffrind dychmygol Albi.

Wrth wyllo hynt a helynt y ddau gyfaill hoffus ar ddydd Nadolig ar S4C, bydd eich teulu cyfan yn canu, mwynhau a chwerthin yn eu cwmni. Caryl Parry Jones a Non Parry sydd wedi creu'r ffilm, a Caryl sydd wedi cyfansoddi pob cân.

Efan Williams o Gaerdydd sy'n chwarae rhan Noa - felly pwy fyddai'n well i esbonio mwy am fyd Albi a Noa?

Disgrifia'r ffilm i ni mewn 3 gair.

Cyffrous, hwyliog, emosïynol.

Sut brofiad oedd e i ffilmio ar gyfer y teledu?

Roedd yn lot o hwyl gan fod gen i ran mor fawr ynddi. Roedd yr actorion eraill yn glên iawn, ac roedden ni'n

cael llawer o hwyl. Hoffwn wneud mwy o actio – mae'n waith caled ond yn gymaint o hwyl!

Mae nifer o ganeuon yn y ffilm, pa gân wyt ti'n hoffi orau a pham?

Rydw i'n hoffi'r holl ganeuon ac fe fwynheais i recordio fy nghân i yn stiwdio Caryl. Ond fy hoff gân yw Cân y Ffrindiau. Mae'n gân mor hwyliog!

Mae'r Nadolig ar fin cyrraedd - beth yw'r traddodiadau Nadolig yn dy deulu di?

Rydym ni'n mynd i'r capel yn Nhreganna bob bore 'Dolig. Weithiau rydym yn galw yn nhŷ ffrindiau cyn dod yn ôl i'r tŷ i fwyta'r cinio. Mae agor yr anrhegion yn gallu cymryd trwy'r dydd! Rydym yn chwarae gyda'n tegau newydd, gwyllo'r teledu ac yn cael bwyta mwy o siocledi na'r arfer. Eleni, rydyn ni gyd yn edrych ymlaen at wyllo **Albi a Noa yn Achub yr Iwnifyrs** gyda'n gilydd!

Albi a Noa yn Achub yr Iwnifyrs

Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr, 7.30pm

Isdeitlau Saesneg ar gael

**Ar alw: s4c.cymru; BBC iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Yn dilyn diwrnod gwlypaf a mwyaf stormus y Gaeaf hyd yma, syndod oedd fod cynifer wedi mentro i'r gymdeithas ar nos Lun 21 Tachwedd.

Gwynn Matthews, brodor o Ddyffryn Clwyd, ond sy' wedi cartrefu yma yn y brifddinas ers naw mlynedd oedd ein siaradwr gwadd. Testun ei sgwrs oedd 'Dau fyd, Dwy gymdoges' ac ynddi aeth â ni 'nôl i'w blwyf genedigol, Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, nepell o Ddinbych.

Dwy wraig o dras bonheddig oedd y ddwy gymdoges a'u cartrefi led dau neu dri chae oddi wrth ei gilydd. Roedd Cecilia Thrale, Llewesog, yn ddisgynnydd o Catrin o Ferain ar ochr ei mam a'i thad ac Ann Parry yn hanu o deulu Syr John Wynn o Wydir.

Stori ramantus oedd un Cecilia ifanc osgeiddig a syrthiodd mewn cariad â John Meredith Mostyn, Segrwyd, yn ystod eu cyfarfyddiad cyntaf yng Ngwesty'r Crown yn Ninbych. Dadlennir y stori gan ddyddiaduron ei mam, Hester Thrale oedd yn hanu o Ben Llŷn. Wedi priodi â Henry, perchennog ariannog Bragdy Thrale yn Sreatham, mwynhaodd Hester gymdeithasu gyda phobl fel Dr. Samuel Johnson ac Oliver Goldsmith, ac ar ei gwahoddiad hi yn ddiweddarach y daeth Dr. Johnson i ymweld â Dyffryn Clwyd. Dyma'r math o fyd oedd yn gyfarwydd i Cecilia hefyd ond pan ail briododd ei mam daeth y teulu o Lundain i Ddyffryn Clwyd. Pur amheus oedd Hester o gymhellion John oedd mewn cariad â'i merch, ac ofnai mai cyfoeth ei theulu oedd yn ei ddenu. Ond cariad a orfu a phriodwyd y ddau ar ôl iddynt ffoi i'r Alban ym Mehefin 1795. Ganed iddynt dri o blant ond er hynny tymhestlog fu'r briodas a gwahanu fu'r hanes.

Byd gwahanol iawn oedd un Ann Parry, Bryn Mulan. Credir iddi gael troedigaeth ar ôl gwrando ar

John Owen, Berthen Gron, pregethwr Methodistiaidd cyntaf Sir y Fflint. Dynes ddeallus o ddyfnder ysbrydol oedd hi ac fe gynhelid Seiat yn ei chartref bob nos Fawrth. Yno ar Y Pasg 1787 y derbyniwyd y bardd a'r emynydd Edward Jones Maes y Plwm, yn aelod ar yr ail gynnyg. Mae'n debyg nad oedd y Seiat yn rhy hoff o'i weithiau barddol! O'r Seiat hon y deilliodd Capel Prion. Byddai croeso i Daniel Rowlands a Williams Pantycelyn hefyd i'w chartref pan ar eu teithiau.

Bu farw Ann yn 1787 a'i chladdu ym mynwent Llanrhaeadr. Ysgrifennwyd marwnad iddi gan Thomas Jones o Ddinbych. Cyhoeddwyd erthygl yn Y Drysorfa yn 1830 gyda'r hanes hwn gan John Wynn, yn datgan i'w mab James gael ei gladdu yn yr un bedd 43 o flynyddoedd yn ddiweddarach. Pan agorwyd y bedd cafwyd fod corff Ann heb bydru ac mewn cyflwr da! Mynnai pobl Llanrhaeadr mai gwir oedd y dystiolaeth.

Diolch i Gwynn am noson ddaeth â hanes yn fyw, mor fyw yn wir nes peri i un wraig obeithiol ofyn a oedd Capel Methodist yn Rhiwbeina y gallai ymaelodi ynddo!!



Cystadleuaeth!

Cyfle i ennill CD newydd Y Welsh Whisperer:
Y Dyn o Gwmfelin Mynach
Hiwmor a chanu gwlad ar ei orau!

TARW DU



Sawl aelod sy yn y deuaud Dylan a Neil?
Atebion at welshwhisperer@live.com
(Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad.)

CD newydd yn y siopau nawr. www.welshwhisperer.cymru



urdd.org

Uwch Adran Caerdydd

Mae cryn gyffro wedi bod yn ardal Parc Fictoria bob nos Fercher yn ddiweddar gan fod yr Urdd wedi bod yn cynnal Clwb Ieuenctid newydd ar gyfer disgyblion Blynnydoedd 7, 8 a 9 Ysgolion Uwchradd Caerdydd. Mae criw wedi bod yn dod o Blasmawr a Glantaf ac yn treulio'r amser yn chwarae gêmâu a chymdeithasu, gan ddod i adnabod ein gilydd yn dda iawn.

Dim ond megis dechrau y mae'r Clwb Ieuenctid, ond mae criw brwdfrydig iawn wedi bod yn dod yn wythnosol, a'r gobaith yw trefnu rhagor o weithgareddau wrth i'r Uwch Adran ddatblygu. Rydym wedi bod yn cwrrd yn Neuadd Eglwys St Luke's ger Parc Fictoria (cefn Caffi'r Parc) bob nos Fercher am 7.00. Byddwn yn ailgychwyn ar ôl y Nadolig ar nos Fercher 11 Ionawr.



Dewch yn llu – mae'n agored i bawb sydd am gymdeithasu a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Swyddfa'r Urdd ar 02920 635 684 neu anfonwch neges at casi@urdd.org.

Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

YNG NGHWMNI 'SEINDORF Y SEINTIAU'

Nos Wener Tachwedd 25 cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys ei Noson Elusennol flynyddol yn Neuadd Bentref Dinas Powys. Ambiwllans yr Awyr Cymru oedd dewis y Cadeirydd, Alun Daniel eleni. Roedd yr elusen yma yn agos iawn at galon y teulu Daniel ac yn agos iawn at galonnau holl aelodau'r Gymdeithas am fod un o ferched Alun a Helen wedi cael ataliad ar y galon wrth redeg ar ei phen ei hun yn ardal Y Sili. Cludwyd hi i Ysbyty'r Waun mewn hofrennydd ac ar ôl sawl diwrnod o bryder a gofid fe ddaeth drwyddi. Diolch byth am elusen fel Ambiwllans yr Awyr.

Roedd neuadd y pentref dan ei sang a phawb yn mwynhau cwmni 'Seindorf y Seintiau' (Saints Big Band). Cawsom fwynhad o glywed

darnau Glenn Miller. Pob troed yn symud i'r miwsig a phob llais yn gweiddi *Pennsylvania 6-5000!* Bu rhai o selogion y Gymdeithas wrthi'n 'Jeifo', 'twisto' a neidio - roedd sawl asgwrn yn gwingo drannoeth ddwedwn i!

Y newyddion gorau yw, ar ôl ein hoedfa garolau yn Eglwys Sant Pedr ar Ragfyr 12, byddwn yn trosglwyddo siec o £2,000 i ddwylo cynrychiolydd o'r elusen.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



Diolch yn fawr

Dymuna pwyllgor y Dinesydd ddiolch yn fawr iawn i Eglwys Minny Street am anrheg Nadolig hael. Gwerthfawrogi y gefnogaeth yn fawr iawn.

Ysgol Glantaf

Siarad Cyhoeddus

Unwaith eto eleni llwyddodd tîm siarad cyhoeddus Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf i gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Gymraeg y Rotari. Testun



Glantaf oedd 'Does dim pwrpas astudio Cymraeg fel pwnc yn y Chweched Dosbarth'- testun dadleuol iawn. Aelodau'r tîm oedd Iwan Jones (bl13), Beca Hayes (bl13) ac Elwyn Williams (bl12). Llongyfarchiadau mawr i Iwan Jones am ennill gwobr Cynigydd y Noson.

Taekwondo

Llongyfarchiadau mawr i Lily McAllister Sutton o flwyddyn 10 am ddod yn bencampwraig Prydain yn y gamp Taekwondo. Roedd Lily yn cystadlu yng nghystadleuaeth y merched rhwng 14-17 oed, felly mae ei llwyddiant yn dipyn o gamp. Rydym fel ysgol yn falch iawn ohoni.

Academi Rygbi Glantaf

Mae gan yr ysgol draddodiad rygbi balch a dros y blynyddoedd wedi cynhyrchu chwaraewyr rygbi arbennig. Bellach, mae academi Glantaf wedi sefydlu ei hun fel carfan lwyddiannus. Yn dilyn buddugoliaeth y tîm yn erbyn Coleg Llandrillo o 32 pwynt i 5, mae'r ysgol ar ei ffordd i rownd derfynol y Tlws, sy'n dipyn o gamp wrth ystyried mai hon yw blwyddyn gyntaf yr academi.

Ysgol Bro Edern

Ein trip i Langrannog

Ar ddydd Llun, Tachwedd 7, aethon ni, disgyblion blwyddyn 7 a blwyddyn 6 clwstr Bro Edern, i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Wrth adael yr ysgol roedd bola pawb yn troi â chyffro, yn eiddgar iawn i gyrraedd mor gyflym â phosibl.

Ar ôl taith ymlaciol ar y bws a setlo lawr yn ein hystafelloedd, aethon ni yn syth am dro hyfryd lawr i'r traeth. Gwelon ni olygfeydd anghredadwy wrth syllu ar fyd natur o'n cwmpas, tra'n mwynhau cwmni holl ddisgyblion clwstr Bro Edern.

Wrth i'r awyr droi'n ddu fel bola buwch, dechreuon ni ein gweithgareddau nos, a chael sbort a sbri wrth wneud chwaraeon, canu, a phob math o bethau hwyliog! Am ddeg roedd pawb yn dylyfu gêm ac yn barod i fynd i gysgu.

Ar ein diwrnod cyntaf, sgrechiodd y gloch fel tegell yn berwi. Er bod pawb yn hollol flinedig ar ôl noson hynod o hwyr, roedd pawb mas o'u gwelyau ar ôl eiliadau iddyn nhw ddiuno; yn syth â ni am frechwast blasus i'n paratoi am ddiwrnod llawn arall!

Pan ddechreuodd y gweithgareddau, rheddodd pawb yn wyllt â'u gwynt yn eu dyrnau tu ag at eu gweithgareddau. Cawsom brofiadau rhagorol â llwyth o hwyl, fel yn y gwibgartio – roedd o'n hynod o ddiddorol gweld pawb yn llithro lawr y llethr yn cwmpo dros ben ei gilydd gan chwerrhin!

Yna ar y rhaffau uchel, roedd e'n werth gweld wynebau rhai o'r plant a'r athrawon yn dringo'n bryderus ac yn llawn ofn, ond yn wir dim ond ychydig fetrau o'r llawr oedd e! Ac wrth gwrs y beiciau cwad; dyma oedd uchafbwynt pawb ac roedd pawb wedi bod yn ysu i neidio ar y beiciau cwad a chael cyfle i yrru'n wyllt rownd y trac nifer o weithiau. Am hwyl!

Dwy noson fythgofiadwy oedd noson y disgo a'r Noson Lawen. Ar nos Fercher, gwisgodd y disgyblion i fyny a pharatoi ar gyfer y disgo, tra bo rhai yn cwtsio lan i wyllo ffilm. Wrth i'r gerddoriaeth godi a'r disgyblion ddawnsio mwy a mwy, cynyddodd enaid y gwrsyll.

Noson Lawen! Y noson fwyaf cyffrous o bob un! Trwy'r wythnos roeddem wedi bod yn ymarfer côr chwibanu, parti llefaru ac wrth gwrs dawnio disgo. Ar y noson olaf, roedd hi'n amser cystadlu yn erbyn y llysoedd eraill ac roedd pawb ar dân i ennill!

Cyn gadael y gwrsyll, roedd pawb yn mynnu aros yn Llangrannog ar ôl wythnos mor anhygoel a chyffrous. Erbyn i ni gyrraedd nôl ym Mro Edern, roedd pawb yn drist ein bod ni wedi gadael y gwrsyll, ac yn gobeithio y cawn y cyfle i fynd yn ôl yno'n fuan. Hwyl fawr Llangrannog!

Eluned Goss



Ysgol Plasmawr

Mae Mabli Tudur (Blwyddyn 13) wedi cael profiadau anhygoel yn ddiweddar – mae wedi rhyddhau caneuon newydd; wedi canu yng ngŵyl gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr 2017 ac wedi cymryd rhan yng Nghyngerdd Coffa Aberfan yng Nghanolfan y Mileniwm.

Bu Lleucu Parri (Blwyddyn 13) yn cystadlu yn Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru ac wedi mwynhau'r profiad yn arw.

Fe enillodd criw Blwyddyn 12 gystadleuaeth ranbarthol Caerdydd a de-orllewin Cymru 'Debating Matters'. Llongyfarchiadau i Hywel Bleassdale, Ysella Fish, Dan ac Amy Lloyd Evans. Diolch i Mrs Kathy James am drefnu.

Plasmawr ar daith!

Aeth criw anferth o ddisgyblion blwyddyn 8 Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (a'u hathrawon) i Ffrainc am benwythnos hir ar ddechrau mis Hydref.

Dros y penwythnos treuliodd 103 disgybl a 12 aelod o staff yr Ysgol amser arbennig yn ardal Le Touquet yn dod i adnabod diwylliant Ffrainc.

Yn ystod y penwythnos, ymwelon nhw â ffatri siocled yn agos i Le Touquet (délicieux!), parc thema Ffrengig yn agos i Baris ac acwariwm yn Boulogne-sur-mer.

Dyma'r hyn ddywedodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 8 am y profiad:

'Yn fy marn i roedd yn brofiad anhygoel. Fy hoff beth oedd

ymweld â Parc Astérix. Defnyddiais fy Ffrangeg i archebu llawer o bethau felly dysgais lawer o eirfa newydd. Cawson ni becyn iaith gan yr athrawon a oedd yn ddefnyddiol iawn – roedd yn osgoi llawer o embaras.'

'Roedd mynd i'r 'chocolaterie' yn hwyl. Roedd blasu siocled Ffrengig go iawn ar ôl ei weld e'n cael ei gynhyrchu yn wych!'

'Mwynheais i'r reids ym Mharc Astérix. Roedd rhai uchel iawn. Roedd ofn ar rai o'r athrawon!'

'Ces i amser gwych yn Ffrainc! Roedd yn brofiad bythgofiadwy cael y cyfle i siarad Ffrangeg yn y wlad ei hun a chlywed pobl yn siarad yr iaith mor gyflym!'

'Mwynheais i gael ychydig o ryddid yn 'Parc Astérix' a chael dewis beth roeddem ni eisiau wneud. Penderfynais i wyllo sioe dolffiniaid a morloi a mwynheais glywed y fenyw a oedd yn cyflwyno'r sioe yn siarad Ffrangeg.'

'Roedd y daith ar y bus yn hir ond yn hwyl. Mwynheais wyllo DVDs a thrafod gyda fy ffrindiau.'

Mae'r disgyblion yn ddiolchgar iawn i'r athrawon am drefnu'r daith! Merci!

Manon Clarke, Blwyddyn 8.



Ysgol y Wern

Chwaraeon

Llongyfarchiadau anferth ar ennill Cwpan Pencampwyr 'Sport Cardiff' allan o holl ysgolion cynradd Caerdydd. Ar ôl dod i frig y gynghrair ysgolion Cymraeg Caerdydd roedd yn rhaid cystadlu yn erbyn enillwyr cynghreiriaid ysgolion cyfrwng Saesneg Caerdydd. Daeth yr ysgol yn fuddugol a cheir llun ohonynt yn derbyn y gwpan gan Dawn Mitchell-Williams o Sport Cardiff.

Llongyfarchiadau i dîm gymnasteg yr ysgol a wnaeth yn arbennig o dda ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Nofis Cymru. Daeth merched B3 a 4 yn gyntaf, bechgyn 3 a 4 yn ail, tîm cymysg B3 a 4 yn gyntaf, merched B5 a 6 yn ail a thîm bechgyn B5 a 6 yn drydydd. Da iawn bawb.

Llongyfarchiadau i dîm Trawsgwlad merched B6- Kate Wood, Megan Jones, Maggie Burgess a Ffion Edwards ar ennill cystadleuaeth Chwaraeon Caerdydd.

Achosion da

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang ar ddiwrnod

Plant Mewn Angen gyda phlant yn prynu a gwerthu cacennau. Codwyd £1965 yn ystod y diwrnod. Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb am eu cyfraniad.

Eto, eleni, mae disgyblion yr ysgol wedi bod wrthi yn ddiwyd yn paratoi bocsys yn llawn nwyddau a fydd yn cael eu dosbarthu i blant yn Rowmania cyn y Nadolig.

Codwyd £552 ar gyfer ymgyrch Pabi, diolch i bawb.



Ysgol Hamadryad

Dathlu Agor Ysgol Hamadryad

Mae gwasanaethau diolchgarwch ein hysgolion cynradd bob amser yn achlysuron lliwgar a llawen. Ond roedd y gwasanaeth ar fore Llun 17 Hydref yn Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad yn un arbennig iawn wrth i ddisgyblion, rheini, staff, a chyfeillion ddod ynghyd i ddathlu agor eu hysgol newydd sbon.

Cafwyd gwledd o ganu gan y plant. Gyda Branwen Gwyn, darpar riant yn yr ysgol, yn cyfeilio, roedd y rhai bychan wrth eu boddau'n dangos eu doniau i'r holl ymwelwyr a oedd yn llenwi'r neuadd. Diolch yn fawr i staff yr ysgol - a theuluoedd y plant - am yr hyfforddi trylwyr. Bu'r plant wedyn yn gwrando'n astud wrth i'r Parchedig Denzil John arwain y gwasanaeth â'i hynawsedd arferol.

Ar ôl i'r plant adael y llwyfan daeth cyfle i'r oedolion ddathlu hefyd. Cafwyd areithiau pwrpasol gan Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), y Cynghorydd Sarah Merry (Aelod Cabinet dros Addysg), Rhian Carbis (Pennaeth), a Dafydd Trystan (Cadeirydd y Llywodraethwyr). Roedd yr achlysur yn garreg filltir hirddisgwyliedig i aelodau Ymgyrch TAG, ac arbennig o braf oedd cael croesawu Jo Beavan Matcher a Huw Lloyd Williams, dau o arweinwyr yr ymgyrch a fu'n allweddol wrth sicrhau ysgol gynradd

Gymraeg ar gyfer Tre-biwt a Grangetown. Cafwyd araith gofiadwy iawn gan Jo - heb y gwaith caled a wnaed ganddi hi, Huw ac eraill o'r ymgyrch (nad oes modd eu henwi i gyd yma) ni fyddai'r ysgol hon wedi agor o gwbl.

Cyfaill arall i'r ysgol a ymunodd yn y dathlu oedd Jennifer Scott, pennaeth Ysgol Gynradd Ninian Park. Mae Ysgol Hamadryad ar hyn o bryd yn rhannu safle â Ninian Park, ac mae'r croeso a gafwyd gan Jennifer a'i staff wedi gwneud byd o wahaniaeth. Hyfryd hefyd oedd cael croesawu'r Parchedig Lona Roberts, a fu'n ddisgybl yn ysgol gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd a agorodd ar safle Ninian Park yn 1949.

Daeth y gwasanaeth i ben â phaned a chacen enfawr - diolch yn fawr i chi, Mrs Carbis! Mae'n amser hynod o gyffrous i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol ac edrychwn ymlaen at gael rhannu rhagor o'i hanes maes o law.



Ysgol Pen y groes

Cynulliad Ysgol Pen y groes

Ar fore dydd Mawrth yr ail ar hugain o Dachwedd daeth ymwelydd pwysig i'r ysgol, sef Jenny Rathbone ein Haelod Seneddol. Daeth i agor Cynulliad y Groes sef Cynulliad Ysgol Gymraeg Pen y groes. Bwriad ein Cynulliad yw sicrhau bod gan bob plentyn lais yn yr ysgol a'r cyfle i ddatblygu yn unigolion uchelgeisiol, creadigol ac iach. Mae pob disgybl o F1 1 hyd at F1 6 yn rhan o is-bwyllgor. Y pwyllgorau gwahanol yw Cyngor Eco, Ysgol Iachus, Dewiniaid Digidol, Dinasyddion y Dyfodol a Dysgu Disglair.

Mae gan bob pwyllgor weledigaeth benodol ac maent yn cyfarfod bob hanner tymor i wireddu eu

syniadau. Mae cynrychiolydd o bob is-bwyllgor ar y Cyngor Ysgol ac yn adrodd nôl beth sydd wedi ei drafod yn y cyfarfodydd gwahanol. Dywedodd Daniel, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, "Mae'n bwysig iawn i ni gael Cynulliad y Groes er mwyn rhoi'r cyfle i bob plentyn yn yr ysgol i fynegi ei farn ei hun."

Roedd yn fraint i gael Jenny Rathbone i agor ein cynulliad yn swyddogol a dywedodd hi "Mae'n hyfryd cael bod fan hyn heddiw a gweld sut mae plant Ysgol Pen y Groes yn datblygu mewn i unigolion annibynnol ac uchelgeisiol gyda syniadau gwreiddiol a chreadigol."

Mae gennym nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio fel Cynulliad i wireddu ein gweledigaeth.

Melanie, Daniel a Samuel



Ysgol Pencae

Llongyfarchiadau

Hoffem longyfarch Huw Singleton o flwyddyn 6 am ei lwyddiant yn ennill cystadleuaeth Gŵyl Heddwch. Hefyd, llongyfarchiadau i Matthew Bill o flwyddyn 1 am ennill cystadleuaeth lliwio poster Nadolig Canolfan Arddio Pugh's. Rydym yn edrych ymlaen i addurno ein gwobr – Coeden Nadolig!

Techniquest

Bu blwyddyn 4 yn Techniquest am fore o weithdai a oedd yn cyflwyno llyfrau rhestr fer 'Royal Society Young People's Book Prize'. Roedden nhw wrth eu boddau yn y gweithdai hwyliog cyn mynychu'r seremoni wobrwyo yng Nghanolfan y Mileniwm. Diolch i Techniquest am y gwahoddiad.

Bu Techniquest hefyd yn ein diddanu yn yr ysgol gyda gweithdai rhesymu mathemategol. Bu blwyddyn 3 a 4 yn trin a thrafod ffracsiau gyda bwyd a blwyddyn 5 a 6 yn edrych ar gyfaint siapiau er mwyn



darganfod pwy oedd y troseddwr a wnaeth ddwyn y diamwntiau.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Cawsom ddiwrnod cyffrous yn yr ysgol wrth i bawb wisgo eu pyjamas i godi arian er budd Plant Mewn Angen. Casglon ni £220 ac mae'r diolch yn mynd i Gyngor yr Ysgol am drefnu'r diwrnod a choginio tost arbennig Pydsey ar ein cyfer ni i gyd.

Gala Nofio'r Urdd

Dymunwn bob lwc i'r holl blant sydd am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Gala Nofio yr Urdd.

Twrnaint rygbi a pêl-droed

Bu'r tîm rygbi a pêl-droed yn brysur yn cymryd rhan mewn twrnaintiau. Llongyfarchiadau iddyn nhw am gynrychioli'r ysgol ac am ddangos mai 'gorau chwarae yw cyd-chwarae'.

Dronau

Diolch i Rheinallt am ddod i'r ysgol i wneud gweithdy anhygoel gyda blwyddyn 6. Bu'r disgyblion yn codio er mwyn hedfan dronau o amgylch y neuadd. Roedd llw o sialensiau â'r disgyblion yn cydblethu sgiliau amcangyfrif, amseru, codio a chydweithio. Mae dronau wedi ymddangos ar nifer o restrau Nadolig yn sgîl y gweithdy! Diolch!

Ysgol Nant Caerau

Caredigrwydd y Nant

Plant mewn angen

Mae diwrnod Plant Mewn Angen bob amser yn ddiwrnod cyffrous yma yn Nant Caerau a doedd eleni ddim yn wahanol. Codwyd swm anhygoel o £930!! Gan ystyried taw ond 234 o blant sydd yn yr ysgol mae'r cyfanswm yma yn hollol wych. Llauer o ddiolch i bawb am eu haelioni.

Codwyd £210 ar gyfer Macmillan gan ddisgyblion blwyddyn 3 a 4. Yn ogystal prynwyd diffibiliwr drwy haelioni rhieni a staff

Ymweliadau

Rydym wedi bod ar nifer o ymweliadau addysgiadol gan gynnwys Canolfan Bwdhaeth Caerdydd, Theatr Dylan Thomas yn Abertawe, a Theatr Sain Ffagan. Roedd pawb wedi elwa'n fawr iawn o'r gwahanol brofiadau.

Dathliadau Roald Dahl

Bu blynyddoedd 3 i 6 i Ganolfan Mileniwm Cymru er mwyn cwblhau taith Wondercrump. Cwblhaon nhw weithdai gwahanol yn ymwneud â Roald Dahl.

Ymweliad Llŷr Titus

Bu bl. 6 yn lwcus iawn oblegid cawsant ymweliad gan yr awdur Llŷr Titus. Daeth i'n hysgol i siarad am ei lyfr

newydd *Gwalia*, sef, llyfr ffug-wyddonol yn llawn cyffro. Gofynnodd lawer iawn o gwestiynau am hoff lyfrau'r disgyblion a chawsant gyfle i greu stori fer eu hunain.

Gwasanaeth Cynhaeaf

Daeth Y Parch. Evan Morgan i'r ysgol i gynnal gwasanaeth ychwanegol am y cynhaeaf. Rhoddodd gyflwyniad arbennig iawn a hoffem ddiolch o galon iddo am ddod atom. Casglwyd dros 147kg o fwydydd sych ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd.

Sioeau Gwyddoniaeth

Cyffrowyd ein disgyblion gan y sioeau hyn yn cynnwys sioe fflamau, ffrwydro a dreigiau a Starlab o Ganolfan Techniquest.

Trawsgwlad

Bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad yr Urdd ar Gaeau Llandaf. Braff oedd gweld cymaint o grysau gwyrd y Nant yn rhedeg yno. Daeth Cai (bl.5) yn 16^{fed} yn y ras i fechgyn bl. 5 a 6 a daeth Ethan (bl.4) yn 3^{ydd} yn ras i fechgyn bl. 3 a 4 gan ennill medal efydd! Mae'r clwb trawsgwlad amser cinio yn mynd o nerth i nerth. Diolch yn fawr Mrs Owens a Mr Walker am eu hyfforddi!

Rygbi

Enillodd yr ysgol gêm rygbi yn erbyn ein cymdogion Ysgol Hywel Dda yn ddiweddar. Roedd hi'n gêm hynod o agos 15-10. Diolch yn fawr Mr Wright a Mr Walker am eu hyfforddi.

Ysgol Pwll Coch

Cân yr Adar

Ar Dachwedd 10 aeth disgyblion Blwyddyn 6 i wylïo sïoe *Cân yr Adar*. Defnyddiodd y cerddorion offerynnau a llais swynol Kizzy Crawford yn unig i gyflwyno eu neges bwerus i ni. Byddaf yn cofio'r perfformiad am amser hir.

Pan ddechreuodd y sïoe roedd y llwyfan yn hollol dywyll a gwelsom offerynnau a cherddorfa yn chwarae a'r peth oedd yn mynd drwy feddwl pawb oedd 'Beth sy'n mynd ymlaen?' Wedyn daeth Kizzy Crawford ymlaen a dechrau canu yn Gymraeg a Saesneg.

Neges y caneuon oedd y dylem fynd allan i'r goedwig i fwynhau'r amgylchfyd a chlywed caneuon yr adar. Rhai o'r adar y canodd Kizzy amdanynt oedd y gwddihw a'r barcod coch. Fy hoff offeryn oedd y bas dwbl oherwydd roedd yn creu awyrgylch hudol.

Ar ôl y sïoe cawsom sesiwn yng ngerddi Chapter. Edrychom ni am ddrychfilod gwahanol a gwelais lawer o foch y coed a mwydod. Aethom i weld y gwenyn a chawsom gyfle i wylïo'r gwenyn prysur yn gweithio. Esboniodd Roger, y gofalwr eu cylch bywyd i ni. Roeddwn yn wên o glust i glust pan ddywedodd y bydden ni'n gallu blasu mêl melys y gwenyn. Dyna oedd fy hoff ran o'r ymweliad.

Neve Howells B 6

Y Cylch Cinio a Chymdeithas Carnhuanawc a'r BBC yn yr Hen Lyfrgell

Nos Wener, 11 Tachwedd roedd Betsan Powys yn Siaradwraig Wadd ar achlysur cinio blynyddol Cymdeithas Carnhuanawc - a gafodd ei gynnal ar y cyd â'r Cylch Cinio yn yr Hen Lyfrgell. Roedd Llywydd y

Cylch Cinio, Paul Morgan, a Chadeirydd Cymdeithas Carnhuanawc, Keith Bush yn bresennol ac ar ôl bwyd, cawsom hanes swydd Betsan gan gynnwys enghreifftiau o'r negeseuon y mae hi'n ei dderbyn fel Pennaeth BBC Radio Cymru.

Mae'r Cylch Cinio wedi trefnu cyfarfodydd hyd at Mai 2017 gyda'r flwyddyn newydd yn dechrau gyda Rhys ap William yn siarad ar Ionawr 9. Y gwsteion yn Chwefror a Mawrth fydd y Dr Phil Elis a Myfyrwyr Chweched Dosbarth Ysgol Plasmawr. (cysylltwch drwy e-bost: cylch.cinio@gmail.com).

Mae Cymdeithas Carnhuanawc hefyd wedi bod yn brysur gyda chynlluniau 2017, gyda threfniadau ar y gweill ar gyfer Ysgol Fore yn yr Hen Lyfrgell ar Mawrth 5 (Thema: Cyfeillion Carnhuanawc); Taith Basg i Milan; Taith Gerdded; Helfa Drysor Tafwyl, a Darlith yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Byddwch yn barod am fwy o fanylion, neu cysylltwch ag Alan Jobbins. (asjobbins@btinternet.com)



Merched y Wawr Caerdydd

Chwilio am ddail amryliw o siâp diddorol; Cedrych am frigau gosgeiddig; sylu i erddi am aeron cochion, a thyrchu drwy'r garej am hen focs pren a darn o sach – dyna fydd hanes aelodau'r gangen y dyddiau nesaf hyn. A hynny o ganlyniad i ymweliad y Parchedig Kevin Davies â ni nos Fawrth, 8 Tachwedd. Efallai na allwn fod yn feistri ar gyfuno lliwiau a siapau fel fe na gwneud crefftwaith perffaith o fyd natur a gogoniant blodau tŷ gwydr, ond fe gymerwn ei gyngor doeth a mynd ati i fwynhau. Mae chwant arnom fynd ati i liwio deilen yn arian a chael oasis yn barod (peidio â'i orwlychu). Bydd yn rhaid agor yr hen *sideboard* yna i chwilio am botyn addas i ddal y greadigaeth. Yng nghanol y blas o wrando ar Kevin a'i straeon, fe gydiodd yr ysfa ynom i fwrw iddi. Gallwn, fe allwn, fel dywedodd Obama! Faint ohonon ni aiff ati i gollu pwysau fel Kevin a rhedeg hanner marathon

sy'n fater arall. Gwnaeth i hynny swnio'n hwy! ond mae'r drws a agorodd i'n cymell i greu addurn wedi cydio. Roedd Malt yn dweud y byddai ei mam, o weld y fath harddwch, yn datgan, "Mae e fel pregeth"! Diolch iddo am noson yn llawn cyffro a blas ar fyw. Roedd pedair wrth eu bodd yn cario adre waith y meistr.



Cymrodorion

Cofio Aber-fan

Nos Wener 4 Tachwedd, yn festri'r Crwys, cynhaliodd Cymrodorion Caerdydd gyfarfod i goffáu trychineb Aber-fan hanner can mlynedd yn ôl. Cymerodd y cyfarfod ffurf trafodaeth rhwng Christine a Wyn James, golygyddion *Dagrau Tost: cerddi Aberfan*, a'r darlledwr Wil Morgan.

Bu Wyn James a Wil Morgan yn Aber-fan yn dilyn y drychineb, a rhanasant eu profiad. Yng Nghwm Taf y cafodd Wyn James ei fagu, ac atgof disgybl ysgol uwchradd oedd ganddo ef o'r digwyddiad. Myfyriwr yn Abertawe oedd Wil Morgan yn 1966, ac atgof gwirfoddolwr a aeth i Aber-fan i helpu oedd ganddo ef.

Y mae'r gyfrol *Dagrau Tost* yn cynnwys cerddi gan Christine James a Wil Morgan, a darllenodd y ddau eu

cerddi. Cyfansoddodd Christine ei cherdd yn 2006 lle mae'n dychmygu mam yn dal i edrych tua'r plant ar eu ffordd adref o'r ysgol flynyddoedd wedi iddi gollu ei phlentyn ...

*gan gribinio trwy'r wynebâu ffres,
y clymau cyfeillion,
am wyrth mewn siwmpwr wau
yn rhedeg ati eto fel y gwnâi bob tro.*

Yr oedd Wil Morgan yn dal yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe pan gyfansoddodd ei gywydd i Aber-fan, cywydd sydd ag arlliw Canu Llywarch Hen iddo, a chwestiwn ysgytwol ...

*Yr aelwyd hon wedi'i gwasgu i'r gornel,
pryder ddoe heddiw'n wae mewn capel.
Oes cydwybod sy'n cadw'n dawel?*

Yn wyneb erchylltra'r drychineb, teimlai Wyn James mai llinell olaf englyn gan Idris Reynolds sy'n cyfleu ein hymateb ni oll ...

y mae iaith weithiau'n methu.

Merched y Wawr Bro Radur

Roedd yn braf gweld cymaint o'n haelodau'n bresennol nos Fercher 2ail o Dachwedd, pan ddaeth Elin Wyn Jones o Canna Deli atom. Ganwyd Elin ar fferm Rhyd y Delyn, Rhoscefnhir, Ynys Môn. Mynychodd yr ysgolion lleol a Phrifysgol Caerdydd cyn troi at ddysgu, a dringo i fod yn Bennaeth Gwyddoniaeth yn ysgol Dyffryn Nantlle.

Penderfynodd Elin a'i mam arallgyfeirio gan ddefnyddio llaeth o'r fferm i gynhyrchu caws. Wedi sawl blwyddyn o arbrofi a dysgu'r grefft, sefydlwyd busnes i werthu'r caws. Sylweddolodd Elin na allai barhau â'r ddwy swydd, felly dyma ymddiswyddo fel athrawes a symud i'r Brifddinas ac agor Bwyty ym Mhontcanna sef Canna Deli.

Bellach gallwch flasau a phrynu cawsiau Rhyd y Delyn yno, ynghyd â chynnyrch sawl busnes bach o Wynedd. Mae'n lle hyfryd am Frecwast, Cinio neu Baned a Chacen flasus iawn mewn "awryglch cwbl"



Gymreig" fel y tystia Lowri Cooke yn ei llyfr "Caffis Cymru".

Diolchodd y Cadeirydd Elsbeth Edwards i Elin am sgwrs ddi-ddorol a hwyliog a chafwyd cyfle i brynu cynhwysion o'r Deli. Diweddwyd y noson gyda sgwrs dros baned.

SIOP Y FELIN YN YR EGLWYS NEWYDD

Glywsoch chi'r si yn ystod yr wythnosau diwethaf bod Siop y Felin yn mynd i gau – nid yw hyn yn wir!

Roeddwn i'n digwydd bod yno ar ddydd Llun, 7 Tachwedd pan soniodd Jane taw dyma'r diwrnod yr agorwyd y siop 21 o flynyddoedd yn ôl. Yn Heol Merthyr y cartrefwyd y siop am y mwyafrif o'r cyfnod.

Mae'n ddiwedd cyfnod. Mae'n siwr y bydd nifer dda iawn ohonom am i'r Dinesydd fanteisio ar rifyn olaf

eleni i ddiolch o galon i Mary, Jane a Chris (ac un neu ddau achlysurol arall) am eu gwasanaeth siriol a chyson i ni'r cwsmeriaid ar hyd y blynyddoedd.

Mae Chris yn arbennig wedi manteisio ar bob cyfle i wella a gloywi ei Chymraeg ers sawl blwyddyn wrth sgwrsio gyda rhai ohonom!

Fe ddaw Beth Jones sy'n byw yn lleol yn y flwyddyn newydd i gadw'r drws yn agored a chroesawu cwsmeriaid hen a newydd.

Felly pob dymuniad da a llwyddiant yn y gwaith i Beth Jones ac ymddediad hir, iach ac hapus i'r tair gwraig ddoeth – Mary, Jane a Chris.

NEWYDDION O'R EGLWYSI

Y TABERNAACL

Cydymdeimlo

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Eifion Gwyn, priod Nia Gwyndaf a mab yng nghyfraith Robin ac Eleri Gwyndaf. Roedd wedi teithio i Sbaen er mwyn siarad mewn angladd cyfaill, ac fe'i drawyd gan gar.

Cofio Dwynwen Evans.

Ddiwedd mis Hydref bu farw Dwynwen Evans ar ôl cystudd hir a blin yn ei chartref. Roedd yn enedigol o Dreforus gan fyw mewn sawl rhan o Brydain yn gweithio i Gwmni Adeiladu. Ymgartrefodd yn y Tabernacl a mwynhau'r gwmniâeth a'r addoliad yn ein plith.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Zorah ac Alwyn Evans ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Y Chwiorydd

Bu'r chwiorydd yn egniol iawn wrth ddechrau ar eu rhaglen y tymor hwn. Roedd cyfraniad Ruth Davies yn dymhorol iawn, sef 'Paratoi am y Nadolig'. Digon naturiol felly oedd cynnal eu Ffair Nadolig ganol y mis a chodi dros £500.

Cymdeithas Nos Fawrth.

Daeth nifer dda ynghyd ddechrau'r mis a mwynhau arlwy leuan Jones ar y piano. Mae'n organydd a chôr-feistr yn Eglwys Dewi Sant. Wedyn draw i gartref Ann Williams yng Nglanyrafon i fwynhau noson Caws a Gwin. Aeth elw'r noson at Gronfa Ghana, un o apeliadau Undeb y Bedyddwyr. Yn ôl i'r Ffestri ganol y mis i glywed sgwrs ddiddorol ar Grochenwaith Ewenni gan leuan a Gwyneth Evans. Roedd yr ymweliad â Mosg Sar-ul-isra yn gyfle ardderchog i rannu gydag addolwyr sy'n credu'n wahanol i ni ond sydd â'r un delfrydau mewn bywyd.

Datganiadau Organ

Cawsom ddatganiad gan Iestyn Evans, sy'n byw a gweithio yn Llundain, ond sydd â'i wreiddiau yn Sir Benfro. Nid y cefndir cenedlaethol gwahanol yn rhaglen Iestyn oedd yn gyfrifol am godi safon y pŵer hwn i'r uchelfannau, ond y ffordd y trefnodd ei raglen mewn creadigaeth gerddorol ysgytwol. Jeffrey Howard gyflwynodd ddatganiad ola'r flwyddyn – achlysur arbennig eto wrth iddo ein swyno, yn ôl ei arfer, â rhaglen amrywiol iawn.

SALEM, TREGANNA

Bedydd

Bedyddiwyd Ifan, mab Sera a Geraint ar 27 Tachwedd. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Gweithgareddau

Bu'r capel yn fwrlwm o weithgareddau yn ystod Tachwedd, gydag Adran yr Urdd yn cwrdd, y clwb brecwast i blant bach, ymarfer y grŵp canu, cylch trafod Beiblaidd, y clwb coffi a chylch trafod i'r ifanc sydd ar ddod yn aelodau yn Salem.

Cyngerdd

Cynhaliwyd cyngerdd arbennig eto eleni yn Salem ar 4 Tachwedd gyda Chôr Canna a Chôr Hen Nodiant, er mwyn codi arian tuag at ein prosiect gyda'r digartref dros y gaeaf. Diolch o galon i gôr Hen Nodiant am drefnu ac i'r corau a Steffan Rhys Hughes am eu cyfraniadau bendigedig.

Lansiad

Lansiwyd nofel y diweddar Moelwyn Jones yn Salem yn ddiweddar, a gwych oedd gweld y festri dan ei sang.

Taith yr Ieuenctid i'r Bannau

Cafodd ieuenctid Salem benwythnos i'r brenin ganol fis Tachwedd, wrth dreulio dwy noson mewn hostel ieuenctid yn Libanus. Cawsant amser gwych yn ymweld â chanolfan ddringo ac yn mwynhau'r ardal leol a'r cymdeithasu fin nos. Diolch i'r arweinwyr am eu brwdfrydedd ac am roi profiadau mor werthfawr iddynt. Pawb angen ychydig o gwsg ar ôl dod adref.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwyneth Harbourne sydd wedi colli ei merch, Rhian. Rydym yn meddwl amdanoch.

Trrefniadau'r Nadolig

Croeso mawr i chi ymuno â ni dros yr ŵyl:

18 Rhagfyr - 10.30 y bore, bydd Gwasanaeth yr Ysgol Sul, ac am 6 yr hwyr bydd Gwasanaeth y Goleuni (sef oedfa o ddarlleniadau a chaneuon a gorymdaith drwy'r capel mewn golau cannyll).

Noswyl Nadolig - 11.30 yr hwyr, oedfa o gymundeb.

Bore Nadolig - 9.30, oedfa deuluol anffurfiol, a chroeso i'r plant ddod â'u hanrhegion i ddangos i Evan!

BETHEL, RHIWBEINA

Mis Tachwedd

I arwain ein hoedfaon, cawsom gwmni ein gweinidog, y Parch Evan Morgan, y Parch Eirian Rees, Gwyndaf Roberts, a Helen Jones. Yn ystod y mis hefyd daeth côr y capel ynghyd unwaith eto i ymarfer ar gyfer y Nadolig. Ar ôl yr oedfa ar fore Sul 13 Tachwedd aeth y gweinidog gyda'r aelodau a'r plant am ginio yn y Discovery ger llyn Parc y Rhath.

Bore Coffi

Bore Mawrth 22 Tachwedd cynhaliwyd bore coffi yn y capel i godi arian ar gyfer Prosiect y Digartref.

Cinio Nadolig

Byddwn yn cwrdd am ginio Nadolig yn y Toby Inn, Manor Way, ar ddydd Mawrth 6 Rhagfyr.

Cyfarchion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Ken Williams, Mair Owen a Bob Davies.

Dathlu'r Nadolig

Byddwn yn dathlu'r Nadolig yn ein hoedfaon ar fore Sul 11 a 18 Rhagfyr am 10.15 ac ar Noswyl Nadolig am un ar ddeg yr hwyr.



Ieuenctid Salem yn mwynhau penwythnos yn y Bannau

EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org@MinnyStreet
Edrychwn ymlaen at gyfnod yr Adfent a'r Nadolig. Estynnwn groeso i bawb i'n cyfarfodydd ar y Sul (10.30 a 18.00) ac yn ystod yr wythnos.

Ymunwch â ni ar un o'n **pnawniau Adfent 'Dathlu'r Nadolig'** 11.15 - 13.00. Dewch am banded, trafodaeth a thamaid o ginio – Rhagfyr 1 yng nghwmni'r arlunydd Käthe Kollwitz; Rhagfyr 6 yng nghwmni George Frederic Handel; Rhagfyr 20 yng nghwmni 'Pantocrator' (eicon).

Bydd ein **Gwasanaeth Naw Llith a Charol** yng ngofal Elinor Patchell a Margaret Williams nos Sul Rhagfyr 11. Y Gymdeithas fydd yn 'Dathlu'r Nadolig' nos Fawrth Rhagfyr 13 yng nghwmni Edward Morus Jones, Ynys Môn. Nos Sul Rhagfyr 18 am 17.00 bydd **Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul** gyda pharti Nadolig yn dilyn a chawn **Wasanaeth Noswyl Nadolig** am 23.30 dan ofal ein Gweinidog. Ymunwn â'n cyfeillion yng Nghapel y Crwys fore'r Nadolig ar gyfer yr **Oedfa Nadolig** pan bregethir gan ein Gweinidog Y Parchedig Owain Llŷr Evans.

Cofiwch am PIMS, Babimini a thaith gerdded fore lau, Rhagfyr 29. Hefyd 'Munud'odau'r Adfent ar ein gwefan a 'Gair am Air' a 'Trydair' ar ein cyfrif trydar.

Ionawr 8 dathlwn y Plygain yn Eglwys Teilo Sant, Sain Ffagan am 14.00 dan ofal y Parchedig Ddr R Alun Evans a Rhiannon Evans.

Bedydd: Hyfrydwch fu tystio i fedydd **Gruffydd Ifan**, mab Ifan a Llinos Patchell (Llandaf) yn ein hoedfa deuluol ym mis Tachwedd.

YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Triniaeth

Dymunwn wellhâd buan i Hywel George ar ôl ei driniaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Luned Evans ar ennil y wobwr am y 'Best Art Department Trainee' gan BBC 'It's My Short Productions' am y ffilm 'Leonard's Neighbour'. Dangosir y ffilm ar BBC2, Rhagfyr 12 am 11pm.

Swydd Newydd

Dymunwn yn dda i Bedwyr Lewis wrth iddo ddechrau ar ei swydd newydd fel cynorthwy-ydd dysgu yn Ysgol Bro Eirwg.

Dathlu'r Nadolig

Estynnwn groeso cynnes i ymuno â



ni wrth i ni ddatlu newyddion da y Nadolig.

Cynhelir Noson Garolau'r Eglwys Newydd yn Capel Tabernacl, yr Eglwys Newydd ar Ragfyr 11 am 4 o'r gloch y prynhawn.

Cynhelir Oedfa Garolau'r Teulu yn adeilad yr eglwys yn Stryd Rhymini ar Ragfyr 18 am 10.30 y bore.

Bydd gwasanaeth bore'r Nadolig yn dechrau am 10.30.

Ffarwelio

Ddiwedd y flwyddyn byddwn yn ffarwelio â Trystan Hallam ein cydweinidog, ynghyd â'i wraig Katherine a'r plant Elis a Siwan. Mae Trystan wedi derbyn galwad i Eglwys Bethel, Tredegar, a bydd yn cychwyn gwasanaethu yno ar Ionawr 1, 2017. Bu Trystan yn gwasanaethu yn yr Eglwys ers wyth mlynedd, yn gyntaf dan hyfforddiant, yna fel cynorthwy-ydd, ac ers tair blynedd fel cydweinidog. Diolchwn iddo am ei waith a'i weinidogaeth ddiflino yn ein plith a dymunwn fendith yr Arglwydd arno ef a'r teulu yn y cylch newydd o wasanaeth. Gwelwn eu heisiau'n fawr.

EGLWYS Y CRWYS

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Alan a Catherine Jobbins ar ddatlu eu priodas aur. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Rhian Huws Williams ar dderbyn Anrhydedd Cyflawni Gydol Oes ym maes Gofal mewn seremoni yn Neuadd y Ddinas a gynhaliwyd o dan nawdd Fforwm Gofal Cymru.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Robin a Sarah Owen ar enedigaeth Elis Wyn. Mae ei frawd Morgan Rhys wrth ei fodd.

Cydymdeimlo

Trist oedd derbyn y newydd am farwolaeth Mrs. Doris James. Bu'n

aelod ffyddlon yn y Crwys ac yn gyfrifol am drefnu'r blodau ar y Sul am dros ddeugain mlynedd. Coffa da hefyd am ei diweddar briod, Mr Tom Ellis James, blaenor ac organydd yn yr Eglwys. Cydymdeimlir yn ddwys â'r merched Mrs. Gwen Edwards a Mrs. Ruth Watt a'u teuluoedd. yn eu profedigaeth.

Y Grŵp Merched

Cynhaliwyd noson agored ddifyr dros ben yng nghwmni Hannah Thomas o'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg. Mae'r aelodau yn edrych ymlaen at eu Swper Nadolig yng Nghlwb Golff Caerdydd.

Y Gymdeithas

Cafwyd noson 'Hawl i Holi' ddiddorol o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog, y Parch Aled Huw Thomas. Aelodau'r Panel oedd Dafydd Huw, Emyr Gruffydd, Hannah Thomas a Michael Jones.

Ddiwedd Tachwedd cynhaliwyd noson gerddorol safonol yng ngofal Gareth Rhys Davies. Diolch i'r holl swyddogion am y trefniadau.

Y Gorlan

Cynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod mis Tachwedd, y naill yng nghwmni Mrs. Marian Evans yn sôn am ei diddordeb mewn 'Sampleri a Chwiltiau' a'r llall yng nghwmni Lisa Lewis a'r Dr. Helen Davies yn annerch ar 'Cymru a Bryniau Cassia' Cyflwynwyd cacen pen-blwydd arbennig i'r Athro John Gwynfor Jones. Llongyfarchiadau cynnes iddo, prawf fod gwaith caled yn cadw rhywun yn ifanc!

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn tuag at waith Cymorth Cristnogol. Bydd yr elw yn mynd tuag at gyfraniad yr Eglwys at Apêl 2017 y Cyfundeb tuag at Ynysoedd y Phillipines.

EGLWYS EBENESER

Bedydd



Ar fore Sul, 13 Tachwedd daeth ymhell dros gant i'r gwasanaeth ble cawsom fod yn dystion i fedydd Maccsen, brawd Tora a mab Tim a Lisa Thomas-Ayres. Dyna braf oedd cael rhannu yn llawenydd y teulu. Pob bendith a dymuniadau gorau i'r teulu bach i'r dyfodol.

Elusen 2017

Mewn cyfarfod eglwys diweddar dewiswyd The Neuro Foundation fel ein helusen ar gyfer Ionawr i Ragfyr. Gofynnodd Lisa Thomas-Ayres i'r eglwys gefnogi'r elusen yn 2017 am fod ei merch, Tora, yn dioddef o'r cyflwr. Mae'r elusen hon yn ymchwilio i'r cyflwr genetigol, Neurofibromatosis (NF). Am fwy o wybodaeth am y cyflwr hwn ewch i www.nfauk.org.

OCC

A'r Nadolig yn nesáu daeth cyfle unwaith eto i anfon bocsys drwy gynllun Operation Christmas Child i blant difreintiedig. Braint yw cael cefnogi elusen sy'n cwrdd ag anghenion rhai sy'n dioddef o ganlyniad i ryfel, tlodi, newyn a thrychinebau naturiol. Braint oedd i ni fel eglwys allu cyfrannu 40 o focsyst gan blant ac aelodau.

ODID

Beth ydy Odid glywa i chi'n gofyn. Wel astudiaeth Feiblaidd sy'n mynd 'O dŷ i dŷ' yw Odid. Mae'r cyfarfod yn un sy'n cynnwys astudiaeth, trafodaeth a gweddi mewn awyrgylch cwbl anffurfiol. Os hoffech ymuno â ni; a does dim rhaid i chi ddod i bob cyfarfod; cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at Ebeneser@btinternet.com er mwyn cael gwybod lleoliad a dyddiad y cyfarfod nesaf.

*leuenctid Bethel, yng nghwmni'r
Parchg Dr R Alun Evans*

EGLWYS DEWI SANT

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr â'r Dr. Stuart Jones, Rhys, Eleri a Rhodri ar ôl iddynt golli Catherine a oedd mor annwyl iddynt. Byddwn ni i gyd yn ei chofio fel aelod ffyddlon a gweithgar o'r eglwys.

Cofiw'n hefyd am deulu Siân Dyer a fu farw mor anhymig. Magwyd Siân yn Newi Sant lle bu'n aelod gwerthfawr o'r côr. Bu'n gofalu am ei mam am flynyddoedd lawer.

Bu farw Dewi Griffiths a oedd yn gyn-drysorydd yr eglwys. Roedd e' a'i briad Eilonwy wedi symud i Lannon, ger Llanelli. Cofiw'n amdani hi a'r meibion, Elystan ac Aynsley.

Gwasanaeth Teuluol

Ar Sul y Cofio cynhaliwyd gwasanaeth teuluol, ar thema "Heddwch" a gosodwyd torch o babi coch ar y gofeb yn yr eglwys.

Blychau Romania

Bu plant yr Ysgol Sul yn llenwi bocsyst esgidiau er mwyn eu hanfon at blant Romania.

Cwis

Cynhaliwyd y Cwis blynyddol yn y Mochyn Du a chafwyd noson hwyliog. Bu llawer o grafu pen a chwerthin. Diolch i Wyn Mears am osod y cwestiynau ac am lywio'r noson.

Gwasanaeth yr Adfent.

Cafwyd gwasanaeth o gerddoriaeth a darlenniadau'r Adfent i ddynodi cychwyn

blwyddyn Eglwysig newydd. Thema'r gwasanaeth oedd edrych ymlaen at y Nadolig pan ddaw yr Iesu fel goleuni yng nghanol y tywyllwch.

BETHEL, PENARTH

Cawsom hwyl a bendith yn ein hoedfa fore Tachwedd 6 pan fuom yn ymhel â chwist ar ran o Lyfr Haggai, maes na fu neb ohonom wedi pori ynddo erioed o'r blaen. Mae'r cwist ar gael. Holwch nevilleevans@totalise.co.uk

Fe'n tywyswyd yn ddwys gan ein gweinidog ar Sul y Cofio mewn myfyrdod yn deillio o ddarlenn Deuteronomium 6, 1-6 a Marc 12, 28-34. Mae'r cyntaf yn nodi cyngor a ddysgid gan blant Iddewig ar y cof. Yn yr ail mae Iesu yn ategu'r cyngor hwn, ond, yn ôl ei arfer, yn ychwanegu cyngor pellach ar garu cymydog.

Dathlu Sul yr Urdd oedd ffocws oedfa foreol Tachwedd 20 yng nghwmni'r Parchedig R. Alun Evans. Diolch iddo am ei arweiniad a hefyd i Emma Berry am drefnu cyfraniadau'r ieuenctid. Diolch arbennig i Rosemary Edwards am fenthg penddelw Syr Ifan ap Owen Edwards.

Gyda'i arweiniad cynnil, cyfoethog, arferol bu'r Parchedig Dafydd Andrew Jones yn goleuo'r ffordd i ni ar Dachwedd 27ain. Seiliwyd y myfyrdod ar adnod olaf Pennod 5 o Efengyl Mathew, '..byddwch chwi'n berffaith fel.....'. Roedd pob emyn (133, 181, 177, 697) yn ategu'r genadwri i'r dim.



Apêl daer

Allech chi helpu gyda'r Dinesydd?

Rydym yn ceisio cael trefn newydd ar Rddosbarthu'r Dinesydd o Ebrill 2017 ymlaen. Bwriadwn rannu'r gwaith rhwng aelodau'r pwyllgor – ond mae angen help arnom i gyflawni un rhan allweddol, sef y 'trefnu'.

Rhoddir disgrifiad o'r gwaith isod ac fe welir bod modd gwneud y rhan fwyaf ohono ar gyfrifiadu'r gartref. Yn wir, mae'r rhestri wedi eu creu yn barod a'r hyn sydd angen ei wneud yw eu diweddarau. Hefyd, ni fyddai rhaid dod i holl gyfarfodydd y pwyllgor – dim ond rhoi adroddiad ar y sefyllfa o bryd i'w gilydd.

Os carech chi gael sgwrs, cysylltwch â Huw Jones ar 20 843835 neu huwgybyw@aol.com

Dyma ddisgrifiad o'r gwaith:

- diweddarau manylion pawb sy'n tanysgrifio;
- derbyn yr arian (sieciau gan amlaf) a'i fancio; [Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hyn yn digwydd yn ystod Chwefror a Mawrth – er bod rhai tanysgrifiadau yn dod mewn yn ystod y flwyddyn.]
- argraffu labeli ar gyfer postio a hefyd argraffu rhestri enwau ar gyfer dosbarthu i'r gwahanol gymdeithasau a sefydliadau;
- ymateb i geisiadau am dderbyn copiâu electronig – cydnabod ac anfon y ddolen ISSUU fisol (a baratoir gan ein cysodydd).

Byddem yn falch iawn o dderbyn cymorth gyda'r agwedd bwysig hon o gynnal ein papur bro. Diolch am ystyried yr apêl.

GRŴP DARLLEN MERCHED Y WAWR CAERDYDD



Mae'r grŵp yn cwrdd unwaith y mis ar y dydd lau olaf am 1.30 y prynhawn yn Llyfrgell Penylan. Trafodir ystod eang o lyfrau, a mae rhywbeth at ddant pawb. Ceir y llyfrau o'r Llyfrgell Ganolog.

HUW ROBERTS CYFRIFYDD

Ymarferydd Profiant Awdurdodedig

Gwasanaeth personol, proffesiynol a dibynadwy

Profiant (Probate)

Treth Etifeddiaeth

Treth Eiddo

Cynllunio ar gyfer ewylllys

Gwasanaeth Ymweliad Cartref ar gael

029 2069 4524 07967 976854

huwrobertsaccountant@googlemail.com

www.huwrobertsaccountant.cymru

Sefydlwyd 1987

YR AWR HAPUS YN 15 OED

Sefydlwyd Yr Awr Hapus (Dysgwyr) ar fore Llun, 19 Tachwedd, 2001, yng Ngwesty Pentref, Coryton. Erys dau o'r chwech aelod gwreiddiol sef Barbara Morgan a Gwilym Dafydd.

Ar fore Llun gwyntog a gwlyb iawn, 21 Tachwedd, aeth 16 ohonom i ddatlu'r 15 yn Yr Hen Lyfrgell. Roedd o leiaf 8 arall yn absennol am wahanol resymau. Croesawyd Mathew o Benarth, Plymouth yn wreiddiol, am y tro cyntaf. Yno hefyd roedd Lynda Newcombe i ddweud gair am ei llyfr newydd '*Speak Welsh outside class – you can do it!*' (£5.95 Gwasg Y Lolfa.)

Arhosodd rhai o'r cwmni ymlaen am ginio ac roedd canmol mawr ar flas y brechdanau yn ôl pob sôn!





NABOD EIN POBOL

Falmai Griffiths yn holi
Daniel Jenkins-Jones

Ydych chi wedi teithio i bellafoedd y byd i wyllo adar?

Dw i wedi teithio i lawer o wledydd ond ddim yn bennaf i wyllo adar achos adar Prydain sy'n fy nenu i fwyaf. Dw i'n hoff iawn o deithio i bendraw'r Alban i wyllo Eryrod a'r Capercaillie neu Geffyl y Coed yn Gymraeg. Dw i wedi teithio i'r India ac wedi gweld adar gyda lliwiau llachar a hefyd rhai swnllyd iawn.

Mae'r Capercaillie yn swnio'n aderyn mawr?

Ydy, mae e. Mae e fel twrci mawr ond yn drist does dim llawer ohonynt ar ôl. 'Nôl yn y saithdegau roedd tua ugain mil ohonynt yn Yr Alban ond erbyn hyn mae llai na dwy fil. Mae'n rhaid gweithio'n galed i ddod ar draws Ceffyl y Coed yn y coedwigoedd cyntefig ac os gwela' i ddau neu dri ohonynt dw i'n cyfrif fy hun yn lwcus.

Beth am adar y môr?

Ma' nhw'n ddiddorol hefyd. Treuliais sawl haf ar Ynysoedd Y Sili. Roedd rhaid mynd allan i'r môr mewn cwch yn y tywydd mawr i weld llawer o adar drycin.

Oes ffeffryn 'da chi?

Oes, Y Wrennol Ddu neu'r *Swift* yn Saesneg.

Pam?

Well! i fi, dyma'r aderyn perffaith oherwydd mae e'n treulio 99% o'i fywyd yn hedfan fry yn yr awyr a dim ond glanio i ddodwy. Maent yn hedfan tra'n cysgu. Dydy'r Wrennol Ddu ddim o'r un teulu â'r Wrennol er bod 'na debygrwydd. Mae adenydd hir fel pladur gan y Wrennol Ddu a chynffon yn debyg i'r Wrennol.

Oes diddordebau eraill gennych?

A dweud y gwir, nagos. Dw i'n caru fy swydd ac yn hoffi siarad â chymdeithasau am adar, cadw arolwg a hel tystiolaeth ar gyflwr adar a dw i'n gobeithio fy mod yn ysbrydoli pobol wrth roi ychydig o wybodaeth iddynt.

Pwy yw eich arwr?

Grav.

Pam?

Bues yn gweithio gyda fe am flynyddoedd ac roedd ei golli fel colli aelod o'r teulu. Roedd mor selog dros yr iaith Gymraeg ac yn hyrwyddo'r iaith bob cyfle allai. Roedd ffordd ganddo i ddod â phobol at ei gilydd a roedd yn parchu pawb bob amser.

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ces i fy ngeni yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin a ces fy magu yn Llangynnwr, pentre bach ar gyrion y dre. Bues i yn ysgol Gynradd Llangynnwr tan yn saith oed ac yna es i i Ysgol Gynradd y Dderwen yng Nghaerfyrddin. Pan 'o'n i'n un-ar-dddeg es i i Ysgol Uwchradd Bro Myrddin a chael addysg dda iawn yno.

Beth wnaethoch chi ar ôl gadael yr ysgol?

Well! Yn ddeunaw oed es i i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth. Ar ôl graddio mewn Drama bues yn lwcus i gael swydd yn syth gan nad oedd dim llawer o awydd arna i i fod yn actor. Ces i swydd fel ymchwilydd gan BBC Cymru yn Abertawe a bues yn gweithio gyda Sulwyn Thomas ar ei raglen *Stondin Sulwyn* am gyfnod o tua un mlynedd ar bymtheg a mwynhau'r gwaith yn fawr iawn.

Pryd symudoch chi i Gaerdydd?

Symudon i Gaerdydd ym 1992 gan fy mod wedi cael swydd arall yn y BBC fel cynhyrchydd ac yna yn uwch gynhyrchydd ar y radio. Gweithiais gyda Hywel Gwynfryn ar *Helo Bobol*, hefyd gyda Nia Roberts ar *Ocsiwnia* a gyda Beti George ar *Beti a'i Phobol* ac mae'n hyfryd clywed Beti bob wythnos o hyd. Mae'n anodd credu fy mod wedi bod yn gweithio ar raglenni pop gyda'r hwyr gyda Daniel Glyn a Dafydd Du!! Penderfynais adael y BBC yn 2006 i weithio'n llawrydd fel cynhyrchydd, ac yn 2011 pan ddaeth cyfle i newid byd fel petai a chael gweithio i'r RSPB. Gwelais hysbyseb yn gofyn am Bennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu gyda'r RSPB a bues yn lwcus i gael y swydd.

Pryd dechreuodd eich diddordeb mewn adar?

Dw i'n cofio'n iawn. 'Ro'n i'n grwt bach wyth oed ac yn chwarae yn y goedwig tu ôl i'r tŷ ac fe laniodd y deryn 'ma ar frigyn rhyw hyd braich oddi wrtho i a dechre canu. Fe redes 'nôl i'r tŷ at Dad a dweud fy stori. Fel roedd hi'n digwydd roedd *Observer's Book of Birds* gan Dad a dyma fe yn dangos lluniau gwahanol adar i mi a dweud wrtho i am bwyntio at lun yr aderyn 'o'n i wedi'i weld. Dyma fi'n dod o hyd i'w lun a'r Titw Mawr oedd e! Wedyn beth wnaeth Dad oedd rhoi enw Cymraeg i bob deryn yn y llyfr. Dechreuodd Dad feithrin diddordeb mewn adar ac ymaelodd y ddau ohonom gyda'r RSPB. Yn drist iawn buodd Dad farw pan o'n i'n ddeuddeg oed ond dw i wedi dal ati ac yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored yn gwyllo adar a phob agwedd o natur o hyd a dw i'n mwynhau pob munud yn y gwaith.

Sioned James

Yr ydym ni fel teulu yn ddiolchgar tu hwnt am y rhoddion er cof am Sioned. Y cyfanswm terfynol yw £3,500. Bydd yr arian yn cael ei ddsbarthu rhwng Meddygfa Llyn Y Frân, Llandysul ac Uned Gofal Dwys Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli. Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd a'ch haelioni. Gareth, Nest a Rhodri.

CERDYN POST O WARSAW

Lowri Haf Cooke yn holi
Nia Wyn Jones

Mae Nia Wyn Jones, sy'n 42 oed, yn adnabyddus am ei gwaith fel gof. Ers rhai misoedd bellach mae hi'n byw yng Ngwlad Pwyl gyda'i gŵr Matthew a'u merched Eiry (sy'n 5 oed) a Gwen (sy'n 2 oed).

Un o ble ydych chi'n wreiddiol yng Nghaerdydd?

Ces i'n magu yn ardal Llandaf o'r ddinas ac, ag eithrio dyddie coleg a stint fer yn Llundain, dwi 'di byw yng Nghaerdydd gyhyd. Serch hynny, mae gen i atgofion melys iawn o fynd i fyw yn Michigan yn yr Unol Dalaethau pan o'n ni'n 7 mlwydd oed. Roedd hi'n antur fawr i'r teulu a dwi'n dal i gofio'r ffrindie gwrddais i yno. Yn yr ysgol yno roedd pwyslais mawr ar grefft a dwi'n siwr bod hynny wedi bod yn darddiad i mi ddilyn gyrfa mewn gwaith metel. O ran Llandaf, mae gen i atgofion melys iawn o chwarae yng Nghwrt Insole; nath Mam drefnu helpa drysor i fi yno ar gyfer fy mharti pen-blwydd yn 10 mlwydd oed.

Pryd a sut glaniochi chi yn ninas Warsaw, a beth ydych chi'n ei wneud yno?

Un noson, jest cyn 'Dolig y llynedd gofynnodd fy ngŵr i am sgwrs. Ddychmygais i fyth y bydde fe'n dweud ei fod yn ystyried trio am swydd yng Ngwlad Pwyl! Tua deuddydd cyn Nadolig fe gafodd e gynnig y swydd, yn rhedeg adain o gwmni o beirianwyr o'r enw Arup, felly bu sawl trafodaeth dros yr ŵyl cyn i ni benderfynu mynd amdani. Dechreuodd Matthew ei swydd yno ym mis Ebrill yna fe symudais i a'r merched, Eiry a Gwen, yno ym mis Awst. Dwi newydd ddechre cwrs gwaith arian yma - methu credu bod y coleg arbenigol 'mond 5 munud o wâc o'r fflat.

Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Warsaw...

Os am ddiwrnod delfrydol yn Warsaw fe fyddai werth i chi ddod yma yn yr haf. Mae parciau bendigedig yma lle mae'r wiwerod cochion yn eich cyfarch, ac hefyd

Llythyr at y Golygydd

Enwogion yn galw am ddeg ysgol gynradd Gymraeg newydd i Gaerdydd

Mae'r Archesgob Barry Morgan ymysg dros ddwsin o bobl adnabyddus sydd wedi galw ar Gyngor Caerdydd i ymrwymo i agor deg ysgol gynradd Gymraeg newydd ar draws y brifddinas dros y pum mlynedd nesaf.

Mewn llythyr agored i'r wasg, mae'r enwau blaenllaw yn dadlau bod angen agor yr ysgolion Cymraeg hyn i gyrraedd targed cenedlaethol Cymru o greu miliwn o

ambell i baun. Mae sawl pŵll nofio awyr agored o fewn rhai o'r parciau felly mae'r plant wrth eu bodd. Yna cinio yng Ngwesty Bristol, adeilad moethus ag iddo nawws Art Decco, lle ma na fwyd bendigedig a dwi wrth fy modd â'r stondin *waffles* a'r pistyll siocled! Am noson o hwyl ma pawb yn sôn bod e werth croesi'r afon i ardal Praga. Lle *hip* iawn mae'n debyg ond 'dwn i ddim achos ma' plant ifanc gen i sydd angen bod yn eu gwllau!

Pa lefydd yn Warsaw y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas honno?

Mae hanes Warsaw yn un eithriadol. Mae'n anodd amgyffred fy mod i'n byw mewn dinas a loriwyd bron iawn yn llwyr yn 1944. Ag eithrio rhyw 5% o adeiladau mae'r ddinas gyfan yn newydd. Mae sawl adeilad hanesyddol wedi eu hail-godi yn union fel y gwreiddiol, un garreg ar y tro. Oherwydd hynny mae'n werth cael golwg ar yr Hen Dre a'i sgwâr hyfryd. Yna wâc drwy barc Lazienki. Mae'n glamp o barc gyda choed anferth, gwllau blodau hardd, a phalas bach hyfryd ar lannau llyn. Mae nifer o gyngherddau awyr agored yn cael eu cynnal yno dros yr haf. Yna, am swper, ma pizzeria hyfryd *Ciao a Tutti Due* yng nghyffiniau ein catre ni, lle mae yna groeso mawr i blant, ac fe gewch chi bizza am £3.60, bargaen!

Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd a'r Fro?

Yn amlwg, y teulu dwi'n gweld ishe fwyaf. Bob tro dwi'n gwneud *bolognese* dwi bron iawn yn ffonio fy

mrawd i'w wahodd e draw. Yna sylweddoli mod i 1170 milltir i ffwrdd! Fyde fe'n haws iddo fynd i'r Eidal am ei *sbag bol*. Ffrindiau agos hefyd, mae'n anodd peidio â'u gweld mor aml.

Sut byddwch chi'n treulio'r Nadolig eleni?

Ni'n dod adre dros 'Dolig, hwre. Er, mae nifer o'n ffrindie Prydeinig ni'n aros yma dros yr ŵyl. Mae'n debyg bod yna farchnad hyfryd yn yr Hen Dre ac mae Gwesty Bristol yn cynnig cinio 'Dolig gwyd ac yn cyflogi diddanwyr plant er mwyn cadw pawb yn hapus. Mae'n siwr y bydd hi'n oer; mae'n debyg bod y tymheredd yn cwmpo mor isel â -20! Ond byddwn ni'n treulio 'Dolig gyda Dad a'i wraig Marie, a gyda fy mrawd Aled. Ma'r pedwar ohonom yn glanio yn nhŷ Dad druan, squash!

siaradwyr Cymraeg yn ogystal ag ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn y brifddinas.

Mae'r llythyr yn dadlau bod angen i'r Gyngor sicrhau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r brifddinas, ac i gynllunio ar gyfer y twf a ddisgwylir ym mhoblogaeth y ddinas dros y degawd nesaf.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi lansio deiseb i'r cyhoedd er mwyn cefnogi'r galwad sydd ar gael i'w llofnodi drwy fynd i:

<http://cymdeithas.cymru.addysgcaerdydd>.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Colin Nosworthy ar 0791 339542 / 02920 486469.

Y DIGWYDDIADUR

Rhagfyr

Sadwrn, 10 Rhagfyr – Gwener, 30 Rhagfyr

Theatr Sherman a Theatr Iolo yn cyflwyno addasiad Alun Saunders o 'Dillad Newydd yr Ymerawdwr' (Hans Christian Andersen) ar gyfer plant 3–6 oed. Wyth perfformiad rhwng 10 a 30 Rhagfyr, rhai am 11.00am ac eraill am 1.30pm. Manylion pellach: 029-2064-6900; <http://www.shermantheatre.co.uk/performance/theatr/dillad-newydd-yr-ymerawdwr-cy/>

Sadwrn, 10 Rhagfyr

Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan yr Athro E. Wyn James ar y testun, 'Theophilus Evans a Hen Hanes y Cymry'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays CF24 4DX. Croeso cynnes i bawb.

Mawrth, 13 Rhagfyr

Merched y Wawr, Caerdydd. Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Heulwen Jones, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Rhagor o wybodaeth: 029-2075-4379.

Mawrth, 13 Rhagfyr

Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Nadolig gydag Edward Morus Jones, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

Mercher, 14 Rhagfyr

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a The Parti Nadolig, gydag anerchiad gan y Parch. Aled Huw Thomas, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm.

Sadwrn, 24 Rhagfyr

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwasanaeth Cannwyll a Charol, yng nghapel Bethel, Maesyderi, am 11.00pm.

Ionawr

Mercher, 4 Ionawr

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Ni Ein Dwy.' Sgwrs gan Ann Williams a Mehefin Jones, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Mercher, 4 Ionawr

Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs am gyfraith a threfn gyda Catrin Wooler o Wasanaeth Eryl y Goron, yn neuadd Capel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30pm.

Sul, 8 Ionawr

Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, dan ofal y Parch. R. Alun Evans, Rhiannon Evans a Helen Evans. Cinio yn y Bwtri am 12 o'r gloch.

Mawrth, 10 Ionawr

Merched y Wawr, Caerdydd. Bydd Dr Lisa Hurt yn sôn am ymchwil feddygol yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: 029-2075-4379.

Sadwrn, 14 Ionawr

Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Nia Brown ar y testun, 'Brethyn Cartref: Y Grefft o Nyddu'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays CF24 4DX. Croeso cynnes i bawb.

Llun, 16 Ionawr

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, yng nghapel Bethel, Maesyderi, am 7.30pm.

Llun, 16 Ionawr

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Bongelloedd.' Darlith gan y Parch. Ddr Noel Davies (Prifysgol Abertawe), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mawrth, 17 Ionawr

Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Branwen Cennard yn 'Byw Celwydd', yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

Mercher, 18 Ionawr

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Canu, Carchar a Chyryn y Diafol.' Sgwrs gan Dafydd Parry, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Gwener, 20 Ionawr

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Caryl Lewis, enillydd gwobr Llyfr y Flwyddyn 2016 am ei nofel, *Y Bwthyn*, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

Nos Wener, 20 Ionawr

Ciwb Rygbi Yr Eglwys Newydd. Ar Log a Frank Hennessy. Dathlu pen-blwydd yn ddeugain oed. Yma yn y brif ddinas y dechreuodd y stori nôl ym 1976. Am fwy o fanylion Gwyndaf Roberts 07836318960 gwyndafroberts2@gmail.com

Sadwrn, 28 Ionawr

Cerddoriaeth yn y Tabernacl ar yr Ais. Datganiad Organ gan Ieuan Jones am 12.30pm.

Mawrth, 31 Ionawr

Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Fy Hoff Lyfr/Awdur' yng nghwmni Bethan Jones a Glyn E. Jones, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

Chwefror

Mercher, 1 Chwefror

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Sain, Cerdd a Chân.' Sgwrs gan y Parch. Denzil John, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Mercher, 1 Chwefror

Merched y Wawr, Bro Radur. Bydd Siân Lewis yn adrodd stori Menter Caerdydd, gydag egwyl gerddorol gan Ann Williams a Mehefin Parry Jones, yn neuadd Capel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30pm.

Iau, 2 Chwefror

Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwraig wadd: Rhian Wyn Williams. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach cysyllter â'r Ysgrifennydd, Linda Gruffudd (07587-15705/Linda@gruffudd.org).

Gwener, 3 Chwefror

Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Ann Keane, cyn-Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ar y testun 'O'r Llyfrau Gleision Ymlaen: Arolygu Ysgolion Cymru', yn festri Capel Salem, Treganna, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn, 11 Chwefror

Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Marc Evans ar y testun, 'Taith Dysgwr'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays CF24 4DX. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn, 11 Chwefror

Cerddoriaeth yn y Tabernacl, yr Ais. Organathon rhwng 12.00 a 3.30pm.

I anfon gwybodaeth
I'r Digwyddiadur
Gweler manylion ar dud. 3

Clwb y Cymric

Rhaid dweud bod mis Tachwedd wedi cynnwys canlyniadau cymysg i fechgyn Cymric, gyda'r tîm cyntaf yn colli 4-1 yn y gwpan yn erbyn Cefn Cribwr, sy'n chwarae mewn cynghrair is. Serch hynny, mae ymateb y tîm wedi bod yn benderfynol wrth iddynt geisio sefydlu eu hunain tua brig y tabl. Bu gêm agos yn erbyn Cogan yng Nghwrt-yr-Ala, o dan amodau chwarae heriol, ble bu gôl arbennig Caio Iwan yn ddigon i selio'r pwyntiau i Cymric.

Yna, dwy gêm hollbwysig oddi cartref, gan gynnwys syrcais o goliau cyffrous yng Nghwmaman. Buddugoliaeth wych o 3-4, gyda Dylan Roberts (2), Huw Owen a Ryan David yn sgorio yn y glaw trwm. Roedd gêm olaf y mis yn erbyn Dynamo Aber, tîm cryf a chyflym sy'n chwarae eu gêmau ym Mharc Morgan

Jones, Caerffili. Daeth Cymric o Gaerffili gyda tri phwynt arall, wedi goliau gan Osian Pritchard a Huw Owen yn arwain at ganlyniad da arall. Yn ôl y rheolwr, Stuart Williams, dyma oedd un o berfformiadau gorau'r tymor, yn enwedig gan yr amddiffynwyr arwrol, sydd wedi cryfhau safle Cymric yn ail yn y gynghrair.

Dim ond dwy gêm llwyddodd yr ail dîm i chwarae yn ystod y mis – bu gêm gyfartal siomedig yn erbyn Cwrt-y-Fil, wedi i Cymric arwain o ddwy gôl i ddim, diolch i ergydiau sicr Osian Lloyds. Yn anffodus, ildio goliau yn rhy hawdd oedd hanes y gêm yn erbyn Canton Liberals, sydd yn amlwg yn dîm a fydd yn cystadlu tua brig y tabl eleni.

Bydd gêmau mis Rhagfyr yn hanfodol bwysig i'r clwb, wrth i'r ail dîm geisio atgyweirio perfformiadau a chanlyniadau, tra bydd y tîm cyntaf yn ymwybodol bod cyfle iddynt fod ar frig y tabl dros egwyl y Nadolig.

Hen Wlad Fy Nhadau, Mamau, Antis a Chwiorydd!

Merched Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

(gweler llun ar y clawr)

Sefydlwyd Tîm Merched CRCC nôl ym mis Ebrill 2016 gyda'r bwriad o gymryd rhan yng Ngŵyl Rygbi Golden Oldies y Byd a gynhaliwyd yng Nghymru am y tro cyntaf erioed. Drwy bŵer y cyfryngau cymdeithasol, fe ddaethon ni ynghyd i ymarfer.

Daeth dros gant o dimoedd led-led y byd i Gaerdydd ac yng nghanol yr holl dimoedd, roedd 'na dîm o ferched o Gymru – sef Merched CRCC.

Mae'r ysfaf i chwarae wedi parhau, a phenderfynwyd agor ein drysau i ferched dros 18. Rydyn ni bellach wedi chwarae 3 gêm yn erbyn Pontycymer, Llambled a Chilfynydd. Ennill dwy gêm a cholli un. Mae'r tîm yn cynnwys amrywiaeth o allu chwarae a chefnidir – unigolion sydd heb chwarae cyn eleni, a rhai mwy profiadol; ambell chwaraewr yn ei phedwardegau, a nifer o fyfyrwyr; dysgwyr Cymraeg a dynes o wlad Pwyl. Athrawon, cyfarwyddwyr, awdur, nyrs, myfyrwyr, gweithwyr Menter, golygydd sgript, mamau, gweithiwr yn y maes ynni adnewyddol, stand-up comedian, arbenigwr props teledu; osteopath, cynllunydd graffeg – tipyn o amrywiaeth, a dyma sy'n

gwneud y tîm yn ddiddorol. Criw o ddieithraid wedi dod at ei gilydd oherwydd eu cariad at rygbi!

Fe fydd Rhagfyr 10 2016 yn ddiwrnod pwysig i CRCC wrth ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r Clwb, ac fe fydd yn ddydd hanesyddol i ninnau wrth i ni chwarae ein gêm gartref gyntaf, yn erbyn Ffynnon Taf; tîm sydd adran yn uwch na ni ar hyn o bryd. Beth am ddod i'n cefnogi ar gaeau Pontcanna am 11 y.b.? Bydd digon o de, coffi a chacs ar gael!

Efallai y cewch eich ysbrydoli i ymuno â ni. Cewch groeso cynnes yn ein sesiynau hyfforddi. Dewch draw i ymuno â ni rhwng 18.30y.h – 20.00 y.h. bob nos Fercher dan lif-oleuadau Clwb Glamorgan Wanderers yn ystod y Gaeaf, cyn symud i gaeau Pontcanna wrth i olau'r dydd ymestyn yn yr haf.

Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Nerys ar 07801457402.

Tîm Rygbi Merched Cymry Caerdydd

Nid chwys a weli
ond gwlith yr hydref,
nid rheg yw'r dôn
ond alaw gref.

Nid tacl oedd honna
ond cwtsh neu goflaid
nid baeddu a wnaeth
ond ymdrochi'n y llaid.

Nid felly y bydd,
fe wyddom yn iawn.

Bydd y merched yn ffyrnig,
yn gythreuliaid y pawns.

Bydd y chwys yn ddreulwyd
a'r iaith yn goch.

Y taclon fudur,
yn y mwd fel moch.

Ond gydag urddas bydd rhain
yn rhoi hel i'r gelyn,
gan ddangos i'n gwlad
sut mae chwarae fel un.

Anni Llŷn



Mae Tîm Merched CRCC yn chwilio am chwaraewyr newydd!

Dewch i ymuno gyda chriw cymdeithasol o ferched 18+ sy'n dysgu sgiliau rygbi a magu ffitrwydd! Does dim angen profiad blaenorol. Sawl gêm gyfeillgar wedi ei threfnu yn ystod y tymor. Croeso mawr i bawb!


Ymarfer bob nos Fercher 6.30 - 8.00 dan lif-oleuadau caeau Glamorgan Wanderers CF5 4SR yn ystod y gaeaf.



Tîm Merched CRCC Ladies



Rhif: 168




Ar Draws

1. Ailadeiladu lle glân da yn Ninbych (8)
6. Cyflwr y tlawd ar yn ail yn dilyn dechrau'r salwch (4)
8. Y corn i Sion gael mynediad. (6)
9. Torri dau fedd a chymryd meddiant (6)
10. '----- rhwng ei dwylo
Y mab sy'n cadw'r byd rhag cwmpo' (RhP) (4,2,4)
12. Cael trafferth wrth ddechrau trefnu ras wedi bwrn wythnos lawn (6)
14. Danfon neges fel cân aderyn (6)
15. Yn ail i'r crwban (10)
19. Troi'r aflan cyn dechrau'r tymor yn rhywbeth peraroglus. (6)
20. 'Hen ----- Eden odiaeth
Wele heddiw ddaeth i ben' (Anad) (6)
21. Ai dyn byr di-ben yw hwn? (4)
22. 'Pa ddieithr wawr sy'n -----
Pa ryw dragwyddol ddydd?' (BD) (3,1,4)

I Lawr

2. Uno fel deuwad (4)
3. Cael y perffaiht mewn pwdin amheuthun (5)
4. Yn arw siglai'r gwyr (7)
5. Codi yng nghanol bwyta bara mewn mynachlog (5)
6. 'Craig ----- mewn tymhestloedd.
Craig a ddeil yng ngrym y lli' (SJG) (7)
7. 'Bywha dy waith o fewn ein tir.
----- mawr fo ar y gwir' (JR) (8)
11. 'Trugarog a ----- yw'r Arglwydd
Hwyrfydig i lid i roi lle' (WNW) (8)
13. Ymborthwr yn coginio tarw byw (7)
14. Bant a Diana fach yn gynhyrfus a brwd (7)
16. A all Tudur bach fyw tu allan i'w wlad? (5)



17. Llestr sanctaidd efallai (5)
18. A yw bois Tywi ar yn ail yn fach iawn? (4)

Enillydd Croesair Rhif 166
Delwyn Tibbott, Llandaf, Caerdydd

Atebion Croesair Rhif 166

Ar Draws: 5. Copa 7. Adeiladwyr 8. Awst
9. Ffydd yn ffolach 12. Y tlawd 13. Dinerth
14. Dangos 16. Digrif 19. Anllygredig 22. Tlws
23. Gyfiawnder 24. Brau
I Lawr: 1. Sarff 2. Cerdd 3. Harffed 4. Gweled
5. Crachen 6. Pasio'r lili 10 Ystrad Fflur 11. Yma
15. Gwasgu 16. Sillafu 17. Dagrau 18. Gwe
20. Dadl 21. Gordd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror 2017.
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

Llyfr Nhad



Ddiwedd mis Hydref yng nghapel Salem, Treganna, lansiwyd y llyfr cyntaf o drioleg a ysgrifennwyd gan fy Nhad, y diweddar Moelwyn Jones. Enw'r llyfr yw *Glyndŵr, Son of Prophecy*. Nofel ddychmygol yw hi yn seiliedig ar wrthryfel Owain Glyndŵr.

Mae'r stori yn dechrau ym 1401 pan gipiwyd castell mawreddog Conwy gan ddilynwyr Glyndŵr o dan

drwynau'r Saeson, ac yn sylfaen gref i ymgyrch y gwrthryfel yn erbyn Harri IV. Portreadir lluo o gymeriadau credadwy yn cynnwys y Cymro, Rhys ap Tudur a'r Sais, Hotspur. Mae holl ddigwyddiadau'r stori wedi eu creu yn gelfydd iawn.

Ymddiddorai fy nhad mewn hanes yn gyffredinol ond yn enwedig yn hanes bywyd a chyfnod Glyndŵr. Ymchwiliodd yn fanwl yn y testun cyn gorffen y trioleg ychydig o fisoedd cyn ei farwolaeth annisgwyl.

Yn frodor o Fancffosfelen roedd nhad yn ddyn arbennig i'w deulu a'i ffrindiau.

'Fe frwydraist Faes Y Gad dy Brofedigaeth
Gyda gwên dyneraf dy etifeddiaeth.
Torrwyd fy nghalon gan boen dy ing a'th loes -
Fy Owain Glyndŵr hyd ddiwedd F'oes.'

Glyndŵr Son of Prophecy £6.99 Y Lolfa

Bwytai Merch y Ddinas

“Mae na wefr wahanol i’w phrofi yn y bwyty hwn.”

Lowri Haf Cooke



Y Dosbarth

Yn goron ar flwyddyn o wledda, trois at fwyty arbennig iawn y bum yn ysu i’w brofi ers amser, ar gyfer *Y Dinesydd*. Mae'r lleoliad yn ganolog, a'r olygfa yn odidog, a neb llai na Jay Rayner o'r Observer wedi'i ganmol i'r entrychion. Mae'r fwydlen Gymraeg yn werth ei gweld, a'r pris yn rhesymol dros ben. Ar ben popeth, mae'r bwyd o safon eithriadol, mewn athrofa addysgiadol.



Fe agorodd *Y Dosbarth / The Classroom* y llynedd, fel rhan o gampws Coleg Caerdydd a'r Fro; nid profiad cyffredin mo'r ymweliad, mae'n wir, ond un syfrdanol, i'w sawru am sbel. Fe'i leolir ar lawr uchaf y coleg ar Heol Dumballs, nid nepell i'r orsaf ganolog; â'i ffenestri mawr llydan, ceir awyrlun o fri, fin nos neu ganol dydd.

Fe'n tywyswyd o'r dderbynfa oedd yn orlawn o fyfyrwyr, at esgynnydd i'r pumed lawr. Fe basion ni'r gegin, oedd fel pin mewn papur, cyn myned i stafell foethus braf. Fe soniais i eisioes am y pleser a geir wrth estyn am y fwydlen Gymraeg; profiad prin yn y ddinas yw teimlad o'r fath, sy'n annog dedwyddwch mawr. Rhyw deimlad o berthyn, a pharch at yr iaith, sydd o gymorth wrth godi'r archwaeth.

Mae na wefr wahanol i'w phrofi yn y bwyty hwn, nid anhebyg i fynychu *The Clink*, gerllaw; myfyrwyr arlwygo sy'n gweini a choginio, a rhai o'r rheiny'n ifanc iawn. Roedd y llanc a gyflwynodd y bara ffres o'r popty yn bedair ar ddeg mlwydd oed; mae pawb yno mor serchus, a hynod wyllyadwrus, nes eich bod yn annog llwyddiant di-ben draw. Nid gostwng eich disgwyliadau fel cwsmer a wnewch yno, ond gwerthfawrogi'r darlun mawr.

Mae pris y fwydlen amser cinio yn anodd i'w guro; dau gwrs am £9.50 neu dri chwrs am £14.50. O gofio mai James Sommerin yw un o'r hyfforddwy'r gwadd, mae hynny yn fargen a hanner. A minnau'n cwrrd â hen ffrind – sy'n hoff o wledda ei hun – fe gawsom ginio tri chwrs hamddenol iawn.

Dewisodd yntau'r cawl cennin, hufennog gyfoethog, ar gyfer ei gwrs gyntaf, tra es innau am y *parfait* afu cyw iâr a wisgi Penderyn, *brioche* madarch gwyllt a siytni eirin; dau ddewis anhygoel o flasus. Archebodd y ddau ohonom y bol porc fel prif gwrs; fe'i rostiodd yn araf, a'i gyflwyno ar y cyd â *jus* anise a briwsion pwddin gwaed. Sôn am haenau o flasau, ac amryw brofiadau; o'r croen crenshlyd, i'r cig tyner a fynnai doddi yn y geg.

Fe rannom ddau bwdin, a photel o win, wrth i'r haul gaeafol ostwng ar y gorwel. Roedd y *panna cotta* llaeth enwyn yn ysgafn dros ben, ac fe'i daenwyd gan gawod eira cnau coco; y blas cryfaf heb os oedd y *sorbet* blas mango, a darodd ddeuddeg i ni'n dau. Yr un mor llwyddiannus oedd yr hufen iâ banana, a gyfosodd â'r darten siocled, a charamel hallt.

Roedd yn bryd bendigedig mewn lleoliad ysblennydd, a phrofiad arbennig iawn. Fel teimlad o gynnwrf o brofi angerdd, a balchder, ar waith. Ar ben



hynny, dyma fwyty dinesig o fri, sy'n cyfiawnhau yr holl *hype*. Yn ola, bu'n hen bryd i Gaerdydd gael bwyty â golygfa, ac mae'r *Dosbarth* yn derbyn marciau llawn!

Y Dosbarth / The Classroom; Campws Canol y Ddinas CCAF, Heol Dumballs CF10 5FE - 029 2025 0377

Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £6.99

BAY
Resourcing
Teaching Agency

**STAFF YSGOLION CYFRWNG
CYMRAEG A SAESNEG**

Athrawon Cynradd, Cynorthwydd Dosbarth, a mwy.

Angen ar frys ar draws Cymru -
staff o ddydd i ddydd a hir dymor.

FFONIWCH 02920 494 560



Ffoi i'r Aifft Taith Gerdded 140 milltir i gydsefyll gyda Ffoaduriaid

Heddiw, mae yna 65 miliwn o bobl yn ffoaduriaid ar draws y byd – y mwyaf ers yr Ail Ryfel Byd. I dynnu sylw at yr angen llethol sy'n eu hwynebu, bydd tîm o staff Cymorth Cristnogol a Cytûn, yn cynnwys Y Parch Aled Edwards, Cyfarwyddwr Cytûn, Huw Thomas, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Ngymru ac Anna Jane Evans, Cydlynnydd Gogledd Cymru Cymorth Cristnogol yn arwain taith gerdded nodedig ar draws Cymru, o Fethlehem (Sir Gaerfyrddin) i'r Aifft (Sir Ddinbych), gan godi arian tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.

Bydd y daith yn cychwyn gyda gwasanaeth ym Methlehem bore Sul Rhagfyr 4ydd ac yn teithio i fyny drwy Edwinstford, Llanbed, Tregaron, Aberystwyth, Ynyslas – lle y bwriedir croesi'r Afon Ddyfi mewn cwch, yn yr un modd â'r miloedd o ffoaduriaid sydd wedi ceisio croesi Môr y Canoldir. Ymlaen wedyn i Fachynlleth, Brithdir, Bala, Rhuthun a chyrraedd yr Aifft ar Ragfyr 15fed. Bydd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy i gloi'r daith nos Iau Rhagfyr 15fed am 7 o'r gloch gydag Esgob Gregory Cameron, Esgob Llanelwy yn pregethu.

Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru i gerdded y daith, neu rannau ohoni, neu i noddi'r cerddwyr, ewch i wefan Cymorth Cristnogol –

<http://www.christianaid.org.uk/cymru/news/escape.aspx?Page=2>

www.justgiving.com/fundraising/Pred-Owen-Griffiths



Gwena

Dental Care · Gofal Deintyddol



Deintyddfa newydd yn agor Tachwedd 1af 2016

- Yn derbyn cleifion NHS newydd
- Gwasanaeth Cymraeg
- Parcio am ddim
- 200m o orsaf Tŷ Glas

Cofrestrwch nawr
gwenadentalcare.co.uk

Prif Ddeintyddion

Dr Osian Davies
BDS (GDC 80760)

Dr Anna Davies
BDS PDDS MFGDP
(GDC 82418)

Gwena Dental Care
Lancaster House
106 Heol Maes y Coed
Caerdydd CF14 4HE

post@gwenadentalcare.co.uk



Hywel Samuel & Associates
deintyddfa
dental practice

Your dental practice in
the heart of Cardiff.

**28 Heol Eglwys Fair/St Mary St,
Caerdydd. CF10 1AB.**

T: 029 20371393

E: info@hywelsamuel.co.uk

w: www.@hywelsamuel.co.uk

**Sefydlwyd ein deintyddfa annibynnol dros 40
blynedd yn ôl yng nghanol y brifddinas ar Heol
Eglwys Fair. Mae ein lleoliad canolog yn ddelfrydol ar
gyfer gweithwyr yng nghanol y ddinas.
Rydym yn cynnig triniaethau Gwasanaeth Iechyd
Gwladol a phreifat ac yn croesawu cwsmeriaid
newydd ar hyn o bryd.**

**Hoffwn estyn croeso cynnes i Aaron Gwynedd o
Gaernarfon a Leah Mc Dougall o Aberystwyth sy'n
ymuno efo'r practis.**

**Cysylltwch â ni heddiw i wneud apwyntiad gan nodi
HS/Dinesydd.**